



Cyfarfod

PWYLLGOR IAITH

Dyddiad ac Amser

10.00 y.b., DYDD LLUN, 29AIN MEHEFIN, 2026

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol

Am fynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch á ni

Pwynt Cyswllt

Rhodri Jones

01286 679556

rhodrijones1@gwynedd.llyw.cymru

PWYLLGOR IAITH

AELODAETH (15)

Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Rhys Tudur
Menna Baines
Alan Jones Evans
Olaf Cai Larsen
Meryl Roberts

(Sedd Wag)
Elfed Wyn ap Elwyn
Jina Gwyrfai
Gwynfor Owen
Elfed Williams

Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Wendy Cleaver
Gwilym Jones
Hefin Underwood

Beth Lawton
Anne Lloyd-Jones

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

Aelod arall a wahoddir

Y Cynghorydd Llio Elenid Owen, Aelod Cabinet Gwasanaethau Corforeithiol a Chyfreithiol
a'r Gymraeg

R H A G L E N

1. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2026-2027.

2. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2026-2027.

3. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

5. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater bryd y marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

6. COFNODION

4 - 9

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 20 Ebrill 2026 fel rhai cywir.

7. ADRODDIAD ADRAN OEDOLION, IECHYD A LLESIANT AC ADRAN PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD AR WEITHREDIAD Y POLISI IAITH A CHYFRANIAD TUAG AT WIREDDU STRATEGAETH IAITH GYMRAEG 2023-2033

10 - 22

I ystyried yr adroddiad.

8. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GYMRAEG

23 - 67

Cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol drafft i'r Aelodau.

9. CANLYNIADAU AROLWG PEILOT MESUR DEFNYDD O'R GYMRAEG MEWN MANNAU CYHOEDDUS SY'N DARPARU GWASANAETHAU AR RAN CYNGOR GWYNEDD

68 - 76

I gyflwyno canlyniadau yr arolwg.

PWYLLGOR IAITH: 20 EBRILL 2026

YN BRESENNOL:

Y Cynghorwyr: Menna Baines (Cadeirydd)
Meryl Roberts (Is-gadeirydd)

Anne Lloyd Jones, Jina Gwyrfai, Gwilym Jones, Elfed Williams, Rhys Tudur, Elfed Wyn ap Elwyn, Alan Jones Evans a Cai Larsen.

Swyddogion: Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith), Nia Lewis (Ymgynghorydd iaith) a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

HEFYD YN BRESENNOL:

Eitem 5: Sioned Eirian Williams (Pennaeth Adran Economi a Chymuned)
Eitem 6: Iwan Gwilym Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol)

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorwyr Gwynfor Owen, Hefin Underwood, Wendy Cleaver a Beca Brown. Derbyniwyd ymddiheuriad hefyd gan Llywela Haf Owain (Uwch Ymgynghorydd iaith a Chraffu) a Llio Mai Dafydd (Swyddog Dysgu a Datblygu'r iaith Gymraeg).

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

3. MATERION BRYD

Ni dderbyniwyd unrhyw fater bryd.

4. COFNODON

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 09 Chwefror 2026 fel rhai cywir.

5. ADRODDIAD YR ADRAN ECONOMI A CHYMUNED AR WEITHREDIAD Y POLISI IAITH A CHYFRANIAD TUAG AT WIREDDU STRATEGAETH IAITH GYMRAEG 2023-2033

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth yr Adran Economi a Chymuned. Tynnwyd sylw'n fras at y prif bwyntiau canlynol:

Adroddwyd bod holl bolisiau a chynlluniau strategol yr Adran yn cyfrannu at amcanion y Strategaeth iaith, megis Strategaeth Datblygu Economaidd Gwynedd sydd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Tynnwyd sylw penodol at bolisiau eraill megis Fframwaith Adfywio Ardal Ni, Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy, Cynllun Rheoli Safle Treftadaeth y Byd: Tirlun Llechi Cymru yn ogystal â Chynllun Diwylliant Gwynedd sydd ar ffurf drafft ar hyn o bryd.

Atgoffwyd bod yr Adran yn arwain ar nifer o brosiectau sydd yn rhan o Gynllun y Cyngor gan bwysleisio bod ystyriaeth i'r iaith Gymraeg yn ganolog iddynt oll. Amlygwyd mai'r prosiectau hynny yw:

- Gwynedd Llewyrchus
 - Hyrwyddo ein diwylliant ac economi ymweld gynaliadwy
 - Adfywio cymunedau a chanol trefi
 - Creu'r amgylchiadau gorau posibl yng Ngwynedd i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu, a chefnogi pobl Gwynedd mewn i waith.
- Gwynedd Ofalgar
 - Cefnogi Llesiant Pobl

Cadarnhawyd bod asesiadau ieithyddol yn cael eu cyflawni pan mae'r adran yn gweithredu ar gynlluniau a gweithdrefnau mawr, gan gydnabod bod lle i wella er mwyn asesu i ba raddau maent yn llwyddo i wneud hynny gyda phrosiectau llai. Pwysleisiwyd bod hyn yn drafodaeth reolaidd o fewn tîm rheoli'r Adran er mwyn sicrhau bod mwy o asesiadau ieithyddol yn cael eu cyflawni ar brosiectau llai i'r dyfodol.

Yn sgil natur amrywiol ac eang yr Adran, eglurwyd bod pob rheolwr oddi fewn i'r Adran wedi cyflwyno diweddariad ar sut mae eu gwasanaethau yn gweithredu i gyfrannu tuag at amcanion y strategaeth iaith. Tynnwyd sylw at rai meysydd penodol megis Gwasanaeth Llyfrgelloedd Gwynedd a Neuadd Dwyfor sydd yn chwarae rhan allweddol i gefnogi pobl i ddysgu Gymraeg, cael mynediad at adnoddau a gwybodaeth Gymraeg tra hefyd yn dysgu am ddiwylliant, treftadaeth a chynnig gweithgareddau. Yn yr un modd, eglurwyd bod prosiect 'LleCHI Lle Ni: Ein Safle Treftadaeth y Byd, Ein Balchder, Ein Dyfodol' yn hybu'r Gymraeg yn gymunedol tra hefyd yn ffocysu ar bedair egwyddor gref i hyrwyddo'r Gymraeg.

Ymhelaethwyd drwy gyfeirio at y Gwasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau sydd wedi bod yn cyhoeddi erthyglau sydd yn hyrwyddo rhinweddau arbennig ein hardal, yr iaith Gymraeg a diwylliant lleol, fel rhan o brosiect Diwylliesiant. Yn debyg, cadarnhawyd bod cyllideb ar gyfer rhaglen ARFOR bellach wedi dod i ben ond mae'r Adran yn gweithio i ddsbarthu pecynnau a grëwyd yn ystod cyfnod y rhaglen, a'u hyrwyddo er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn parhau i dderbyn anogaeth i ddychwelyd i'r rhanbarth i weithio tra hefyd yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.

Eglurwyd bod gwasanaethau'r Adran wedi amlygu cyfleoedd i godi statws y Gymraeg a sicrhau ei bod yn cael ei ddefnyddio. Rhannwyd enghraifft benodol o hyn drwy gyfeirio at gynlluniau'r Gwasanaeth Morwrol i: Annog a chefnogi staff i siarad a gohebu yn y Gymraeg; darparu cyfleoedd hyffordd i staff wella dysgu'r iaith gan hefyd sicrhau bod llwyddiannau yn cael eu dathlu; a gwella cynnwys dwyieithog yr harbyrau a thraethau'r Sir.

Amlygwyd bod heriau wedi'i amlygu o fewn y Gwasanaeth Datblygu'r Economi gan fod rhaglen ARFOR wedi dod i ben. Eglurwyd bod cyfanswm o £500,000 wedi cael ei rannu rhwng y 4 Sir sydd yn rhan o ranbarth y rhaglen er mwyn sicrhau parhad gweithgareddau'r rhaglen hyd nes etholiad Senedd Cymru 2026, gan nodi nad oes sicrwydd o barhad y rhaglen yn dilyn hynny. Fodd bynnag, pwysleisiwyd bod yr Adran yn ceisio ymgorffori amcanion rhaglen ARFOR i mewn i brosiectau eraill megis Llwyddo'n Lleol er mwyn sicrhau bod gwaith yn parhau er mwyn annog pobl ifanc a phobl sydd yn gallu'r Gymraeg, i ddychwelyd i Wynedd i fyw a gweithio.

Mynegwyd balchder bod rhai swyddogion o fewn yr Adran yn teimlo'n gyfforddus i ddefnyddio technoleg, a meddalwedd megis 'ChatGPT' i ddatblygu hyder yn y Gymraeg. Pwysleisiwyd bod yr Adran yn ymwybodol o risgiau sydd yn bodoli wrth ddefnyddio

technoleg yn y math yma, ond nodwyd ei fod yn gallu bod yn arf gwerthfawr ar gyfer datblygiad ieithyddol y staff.

Atgoffwyd bod llyfrgelloedd Gwynedd yn rhan o rwydwaith cenedlaethol a'u bod yn rhannu adnoddau gyda Siroedd eraill. Cyfeiriwyd at system 'Borrowbox' sydd yn caniatáu defnyddwyr i fenthyg adnoddau yn ddigidol gan gydnabod bod yr Adran wedi derbyn sylwadau am rai o'r termau a ddefnyddir ar y meddalwedd hwnnw, a'r angen i uchafu'r Gymraeg. Cadarnhawyd bod yr Adran yn cydweithio gyda'r cwmni er mwyn sicrhau bod eu defnydd o'r Gymraeg yn gywir a bod unrhyw wallau yn cael eu cywiro er mwyn sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn derbyn sylw cyfartal.

Cadarnhawyd bod yr Adran yn casglu gwybodaeth am ddefnydd ieithyddol a niferoedd o bobl sy'n defnyddio gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn rheolaidd er mwyn monitro perfformiad.

Ymfalchiwyd bod 90.6% o staff yr Adran wedi cwblhau Asesiad Iaith a bod 94.8% o'r unigolion hynny yn cwrdd â dynodiad iaith eu swyddi. Pwysleisiwyd bod trefniadau mewn lle i annog a chefnogi gweithwyr sydd ddim yn cwrdd â'r gofynion ar hyn o bryd. Eglurwyd bod y mwyafrif o aelodau staff sydd heb gyflawni'r asesiad iaith yn aelodau staff tymhorol, megis Wardeniaid Traethau, gan egluro bod y tymor cyflogaeth wedi dod i ben cyn gallu cynnig datblygiad ieithyddol gwerthfawr iddynt. Nodwyd bod y diffyg hwn yn her i'r Adran a bod ystyriaethau ar waith er mwyn canfod datrysiaid.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Mewn ymateb i ymholiad ar sut mae'r Adran yn cefnogi busnesau ac unigolion di-Gymraeg sydd yn ymgeisio am grantiau i hybu a hyrwyddo'r iaith, cadarnhaodd Pennaeth yr Adran bod sicrhad ac ymrwymiad i wneud hyn yn amod pendant i'r gytundeb cyn iddynt dderbyn taliad y grant. Cadarnhawyd bod yr Adran yn monitro pob cais grant sydd yn cael ei gymeradwyo er mwyn sicrhau bod dilyniant mewn ymrwymadau i hyrwyddo'r Gymraeg. Nodwyd mai dim ond ar gyfer cyfnod gweithredol y grantiau mae modd gwneud hyn, gan egluro fod yr Adran yn ddibynnol iawn ar grantiau gan fod y gyllideb graidd yn fychan. Eglurwyd nad oes grantiau yn weithredol ar hyn o bryd ond y disgwylir y Gronfa Twf Lleol newydd yn y misoedd nesaf, gan ategu bydd hyrwyddo'r iaith yn amod pendant i ymgeiswyr y grant hwnnw hefyd. Tynnwyd sylw bod yr Adran hefyd yn hyrwyddo'r iaith mewn dulliau gwahanol, megis drwy gefnogi trefnwyr digwyddiadau byw gyda'r nod o ddylanwadu ar iaith y digwyddiad a hybu'r Gymraeg.

Mynegwyd balchder bod swyddogion y Gwasanaeth Monitro yn gwneud pob ymdrech i annog staff y gwasanaeth i ddysgu a meithrin eu sgiliau Cymraeg. Teimlwyd bod yr anogaeth hon yn effeithiol gan fod staff yn datblygu hyder i ddefnyddio'r iaith yn gyson ac mewn pwyllgorau. Diolchwyd i'r Adran am gefnogi'r gweithlu i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol.

Mewn ymateb i gais am wybodaeth ychwanegol ynglŷn â'r heriau mae'r Adran yn ei wynebu er mwyn sicrhau bod staff tymhorol yn cyrraedd dynodiad iaith eu swyddi, eglurodd Pennaeth yr Adran bod hon yn derbyn ystyriaeth bellach gan swyddogion. Manylwyd ar y sefyllfa gan egluro bod yr Adran yn cyflogi oddeutu 30 o wardeniaid traethau yn dymhorol er mwyn diogelu a chynorthwyo'r cyhoedd. Nodwyd bod y rolau hyn yn cael eu cyflawni yn yr awyr agored ac nid oes gan y staff hynny fynediad at gyfarpar technolegol er mwyn gallu cyflawni hyfforddiant iaith. Pwysleisiwyd bod newid i drefniadau'r Adran yn golygu bod asesiad iaith yn cael ei gyflawni cyn i'r staff ddechrau ar eu rôl yn ffurfiol erbyn hyn. Soniwyd hefyd bod trafferthion wedi bod yn y gorffennol ar gyfer recriwtio'r wardeniaid traethau oherwydd bod y staff sydd yn ymgeisio fel arfer yn ifanc neu ddim yn gallu dreifio. Cyfeiriwyd hefyd at her gyffredin ble nad oes diddordeb ar gyfer ardaloedd penodol, gan

nad yw'n lleol i ble mae'r ymgeiswyr yn byw, gan egluro bod y wardeniaid staff yn debygol o ymgeisio am swyddi ar eu traethau lleol. Cadarnhawyd nad yw'r her hwn o ddarparu hyfforddiant a chefnogi staff i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn unigryw i'r Gwasanaeth Morwrol, gan nodi gall heriau o'r un fath godi o fewn y Gwasanaeth Amgueddfeydd hefyd. Pwysleisiwyd mai nod yr Adran ar gyfer unrhyw staff tymhorol yw sicrhau bod amser digonol i staff ymateb i ymholiadau am eu gallu ieithyddol yn ogystal â mynychu hyfforddiant iaith.

Mewn ymateb i ymholiad ar y gwaith mae'r Adran yn ei wneud i ddod ag enwau Cymraeg ar gyfer lleoliadau ac ardaloedd yn ôl i ddefnydd, eglurodd Pennaeth yr Adran eu bod yn cydweithio gyda Pharc Cenedlaethol Eryri ar brosiect enwau lleoedd. Ymhelaethwyd eu bod wedi derbyn grant gan y Loteri Cenedlaethol er mwyn sicrhau bod y prosiect hwnnw yn cael ei ddefnyddio'n weithredol ac yn cael ei hyrwyddo'n effeithiol.

Mewn ymateb i ymholiad ar y gwaith mae'r Adran yn ei wneud o fewn y maes amaethyddiaeth i gefnogi'r gymuned cefn gwlad a hyrwyddo'r iaith, cadarnhaodd Pennaeth yr Adran bod y sector amaeth yn rhan allweddol o Strategaeth Economaidd y Cyngor. Nodwyd hefyd bod yr undebau amaeth yn aelodau blaenllaw o'r fforwm datblygu. Cydnabuwyd bod ARFOR hefyd wedi bod yn cefnogi cymunedau gwledig a chynorthwyo busnesau a oedd yn dymuno arallgyfeirio.

Mewn ymateb i bryder nad yw'r Gymraeg yn derbyn sylw cyfartal o fewn drefi'r Sir, cadarnhaodd Pennaeth yr Adran bod cefnogaeth wedi bod yn cael ei ddarparu drwy gynllun ARFOR er mwyn cynorthwyo gyda hyn gan atgoffa bod y cynllun hwnnw bellach wedi dod i ben. Cadarnhawyd nad oes unrhyw grantiau ar gael ar hyn o bryd ond tynnwyd sylw at y gefnogaeth gall Mentrau Iaith eu cynnig ar gyfer datblygu gwelededd y Gymraeg ac i gynorthwyo busnesau gydag arwyddion ddwyieithog.

Mewn ymateb i ystyriaethau bod data'r Gwasanaeth Morwrol yn cadarnhau lefelau isel o ohebiaeth Cymraeg, pwysleisiodd Pennaeth yr Adran bod hon yn adlewyrchiad ar iaith defnyddwyr y gwasanaethau hynny. Cadarnhawyd bod gwybodaeth a ffurflenni Cymraeg ar gael yn y ddwy iaith ac mae pob gweithdrefn ar waith er mwyn sicrhau bod defnyddwyr pob gwasanaeth o fewn yr adran yn ymwybodol bod y wybodaeth neu ffurflen maent yn chwilio amdano ar gael yn y Gymraeg.

Mewn ymateb i ymholiad ar ddefnydd yr Adran o wasanaethau Microsoft, Cysill a ChatGPT er mwyn cynorthwyo ag ysgrifennu yn Gymraeg, pwysleisiodd Pennaeth yr Adran bod yr meddalweddau hyn dim ond yn cael eu defnyddio mewn sefyllfaoedd anffurfiol er mwyn cynyddu hyder y gweithlu gyda'r Gymraeg. Cadarnhawyd nad ydynt yn cael eu defnyddio ar gyfer paratoi dogfennaeth nac adroddiadau ffurfiol. Rhannwyd enghreifftiau o ble mae'r meddalwedd yn cael ei ddefnyddio megis os yw aelod ar eu pen eu hunain ac angen gwirio gwybodaeth yn gyflym er mwyn delio gydag ymholiadau. Soniwyd bod defnydd anffurfiol o'r math yma yn gymorth mawr i'r staff ac yn cynorthwyo'r Adran i gyflawni gwasanaethau. Atgyfnerthwyd bod yr Adran yn ymwybodol o'r risgiau o ddefnyddio deallusrwydd artifisial gan nodi bod y sefyllfa yn cael ei fonitro'n barhaus, gyda'r nod o ddatblygu canllaw eglur ar y mater hwn. Gobeithiwyd bydd canllaw yn cael ei ddatblygu ar gyfer y Cyngor yn ehangach er eglurder ar ddefnydd meddalwedd o'r fath i'r dyfodol.

Diolchwyd am yr adroddiad.

PENDERFYNWYD

Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y drafodaeth.

6. ADRODDIAD GWASANAETHAU CYFREITHIOL AR WEITHREDIAD Y POLISI IAITH A CHYFRANIAD TUAG AT WIREDDU STRATEGAETH IAITH GYMRAEG 2023-2033

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol. Tynnwyd sylw'n fras at y prif bwyntiau canlynol:

Adroddwyd bod y Gwasanaethau Cyfreithiol yn gyfrifol am briodoldeb (gan gynnwys rôl Swyddog Monitro, gwasanaethau cyfreithiol, Tîm Etholiadau a Chofrestru Etholiadol yn ogystal â Chefnogaeth Crwner.) Tynnwyd sylw at waith rhanbarthol mae'r Gwasanaeth wedi bod yn ei gyflawni yn y blynyddoedd diwethaf, drwy ddarparu cefnogaeth i GwE, y Cynllun Twf a Chyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (CBC).

Cydnabuwyd bod gofynion cyfreithiol ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd wedi cynyddu yn sylweddol, ac er mwyn ymdopi gyda'r gwaith hynny mae'r CBC wedi ffurfio tîm cyfreithiol annibynnol, gyda Gwasanaethau Cyfreithiol Cyngor Gwynedd bellach wedi tynnu'n ôl o'r bartneriaeth. Pwysleisiwyd bod Gwasanaethau Democratiaeth a Chyllid yn parhau i gefnogi'r CBC. Ymfalchiwyd bod presenoldeb yn y broses o ddatblygu gweithdrefnau a systemau CBC wrth iddo gael ei ffurfio, yn hanfodol er mwyn sicrhau dwyieithrwydd a bod y Gymraeg yn derbyn sylw cyfartal, gan fod arferion da wedi cael eu harddangos a'u gweithredu.

Eglurwyd bod y Tîm Etholiadol yn hyrwyddo'r Gymraeg ac yn mynnu bod dwyieithrwydd yn cael ei sicrhau ar bob achlysur. Rhannwyd enghreifftiau o bwysigrwydd dwyieithrwydd megis ar ddogfennaeth, hyfforddiant, a pan mae canlyniadau etholiadol yn cael eu cyhoeddi ar lafar. Mynegwyd balchder bod y Tîm Etholiadol yn llwyddo i hyrwyddo'r iaith yn llwyddiannus a bod y gwaith yn treiddio i sicrhau bod systemau dwyieithog y Comisiwn Etholiadol bellach yn safonol. Pwysleisiwyd bod lle i wella gan amlygu bod y Tîm Etholiadol yn pwysleisio nad yw darpariaeth uniaith Saesneg o ddogfennaeth na hyfforddiant yn dderbyniol.

Diolchwyd i'r Crwner, sydd yn gweithio ar lefel genedlaethol a hefyd yn hyrwyddo'r Gymraeg drwy ei gwaith. Eglurwyd nad yw Gwasanaeth Crwneriaid Gwynedd a Môn wedi cael ei ymgorffori i gorff rhanbarthol ar draws Gogledd Cymru oherwydd y pwyslais ieithyddol sydd yn cael ei roi gan y Crwner yn yr ardal hon, gan nodi bod hyn yn adlewyrchiad o bwysigrwydd yr iaith i'r Gwasanaeth. Mynegwyd balchder bod y gwaith hwn yn gallu dylanwadu ar ardaloedd Crwneriaid eraill drwy sicrhau bod dogfennaeth ar gael i'w defnyddio yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mynegwyd balchder bod y Gwasanaethau Cyfreithiol bellach yn gallu cyflawni holl elfennau o'i ddyletswyddau yn ddwyieithog, megis agweddau mwyaf technegol o'r gwaith, darparu cytundebau a thrawsgrifiadau achosion llys ar gyfer gwaith yng Ngwynedd ac yn rhanbarthol ar draws Gogledd Cymru. Atgoffwyd nad oedd hyn yn bosib yn y blynyddoedd diwethaf oherwydd bod cyfreithwyr dros dro (locum) wedi bod yn cael eu penodi er mwyn cynorthwyo gyda gwaith rhanbarthol, ble roedd yr angen am arbenigedd penodol yn trechu'r angen am sicrhau bod yr unigolion hynny yn medru'r Gymraeg. Cydnabuwyd bod y Gwasanaeth Cyfreithiol wedi profi heriau recriwtio yn y blynyddoedd diwethaf, ond pwysleisiwyd bod anghenion recriwtio bellach wedi lleddfu a bod y Gwasanaeth yn llwyddo i ddenu staff profiadol ac sydd yn meddu â sgiliau'r Gymraeg pan mae unrhyw drosiant staff yn codi, gan ymfalchio fod y gweithlu yn frwdfrydig a gweithgar iawn.

Ystyriwyd bod yr heriau ieithyddol sydd yn wynebu'r gwasanaeth yn gyffelyb i Adrannau eraill y Cyngor. Cadarnhawyd bod rhai heriau y tu hwnt i reolaeth y gwasanaeth a'r Cyngor yn ehangach tra bod gwaith yn cael ei wneud er mwyn dylanwadu'n ieithyddol mewn mannau eraill, fel y nodwyd eisoes. Cydnabuwyd bod rhai heriau ieithyddol yn deillio o'r angen i gydweithio gyda chwmnïau allanol, cenedlaethol ac arbenigol, ble nad yw o hyd

yn bosib sicrhau bod arbenigedd perthnasol ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, pwysleisiwyd bod y cydweithio hwn yn cael ei wneud yn y Gymraeg os yw'r gwasanaeth ar gael. Tynnwyd sylw mai dim ond un agwedd o waith y gwasanaeth yw'r cydweithio hwn gydag arbenigwyr gan ymfalchïo fod y mwyafrif helaeth o waith yn cael ei gyflawni yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog.

Cadarnhawyd bod y Gwasanaeth yn manteisio ar y cyfleoedd mae'r Cyngor yn ei ddarparu megis Cynllun Yfory a Phrentisiaid, er mwyn datblygu staff cymwysedig a phrofiadol drwy gyfrwng y Gymraeg. Eglurwyd bod dau brentis wedi eu cyflogi gyda'r Gwasanaeth ar hyn o bryd, mewn rôl o fewn y Tîm Etholiadol ac fel rôl para gyfreithiol a bod ystyriaeth barhaus yn cael ei roi er mwyn adnabod cyfleoedd newydd.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Mewn ymateb i ymholiad, eglurodd Pennaeth y Gwasanaeth Cyfreithiol nad oedd gwybodaeth wedi cael ei gyflwyno i'r pwyllgor ar yr hyn sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn codi statws y Gymraeg a sicrhau cyfleoedd i bobl Gymraeg, o fewn yr adroddiad hwn gan nad oes unrhyw enghreifftiau penodol o weithgarwch ymarferol a ellir ei nodi o fewn y Gwasanaeth ar hyn o bryd.

Mewn ymateb i ymholiad, eglurodd Pennaeth y Gwasanaeth Cyfreithiol y byddai'n croesawu ehangu ar y cyfleoedd i brentisiaid a phrofiad gwaith i fyfyrwyr y gyfraith. Ategwyd bod dau prentis yn gweithio o fewn y Gwasanaeth eisoes a byddai'r Gwasanaeth yn ymdrechu i gymryd mantais o'r cyfleoedd hyn yn y dyfodol yn unol â'r angen. Fodd bynnag, eglurwyd mai'r brif her o fewn y maes profiadau gwaith byr dymor yw sicrhau mynediad i systemau electronig y gwasanaethau am amser digonol, pan mae unigolion profiad gwaith dim ond yn y swyddfa am gyfnod cyfyngedig. Cadarnhawyd bod unigolion wedi bod ar brofiad gwaith yn y gorffennol a bod gwaith yn cael ei wneud er mwyn canfod ffordd o allu cynnig hynny yn y dyfodol.

Diolchwyd am yr adroddiad.

PENDERFYNWYD

Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y drafodaeth.

Dechreuodd y Cyfarfod am 10:00yb a gorffennodd am 11:10yb.

CADEIRYDD

Eitem 7

Oedolion, Iechyd a Llesiant ac Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd ar weithrediad y Polisi Iaith a chyfraniad tuag at wireddu Strategaeth Iaith Gymraeg 2023- 2033

Dyddiad	29.06.2026
Adran	Gwasanaethau Cymdeithasol
Awdur	Nia Wyn Evans a Gwen Ffion Davies

1. Pa bolisiau a chynlluniau sydd mewn lle o fewn eich adran er mwyn cyfrannu at amcanion y strategaeth iaith? Nodwch y maes blaenoriaeth (blynyddoedd cynnar, dysgu, gwaith a gwasanaeth, y gymuned neu ymchwil a thechnoleg)

Gweler isod enghreifftiau o sut mae'r Gwasanaeth Cymdeithasol yn cyfrannu at amcanion y strategaeth iaith:

Polisiau a chynlluniau strategol perthnasol

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 - Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswyddau ar awdurdodau lleol, byrddau iechyd a Gweinidogion Cymru sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt weithio i hyrwyddo llesiant y rhai y mae angen gofal a chymorth arnynt, a gofawyr y mae angen cymorth arnynt. Hyn yn sail i holl waith y Gwasanaeth.

Mwy na geiriau - Cafodd 'Mwy na geiriau: Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol' ei gyhoeddi yn 2016. Dylai camau i fabwysiadu **Mwy na geiriau** a'i roi ar waith mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal plant helpu i wella ansawdd y gofal a'r canlyniadau ar gyfer pobl sy'n byw mewn gwlad ddwyieithog. Nod Mwy na geiriau yw creu lefel uwch o gydnabyddiaeth ymhlith darparwyr gwasanaethau bod defnyddio'r Gymraeg nid yn unig yn fater o ddewis ond hefyd yn fater o angen i lawer o bobl. Mae gan ddarparwyr gwasanaethau, felly, gyfrifoldeb i ddiwallu'r anghenion hyn.

Polisi Caffael - Mae Polisi Caffael Cynaliadwy a Strategaeth Caffael eisoes yn bodoli ac yn cynnwys gofynion iaith. Bydd y polisi a'r strategaeth yn cael eu diweddarau yn ystod 2025.

Cymraeg 2050 – 'Miliwn o siaradwyr' – Mae Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru yn nodi dull hirdymor y Llywodraeth o gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae tri prif thema, sef 'cynyddu nifer siaradwyr Cymraeg', 'cynyddu defnydd o'r Gymraeg' a 'creu amodau ffafriol'. Rydym yn gweithio yn gyson tuag at geisio hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn unol â Strategaeth Llywodraeth Cymru.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Mae 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu' yn un o brif nodau llesiant y Ddeddf.

Cynllun Cydraddoldeb 2024 – 2028 - Pwrpas y cynllun cydraddoldeb yw lleihau anghydraddoldeb rhwng pobl sydd â nodweddion cydraddoldeb a phobl sydd ddim yn rhannu un o'r nodweddion. Mae amcanion y cynllun yn cyffwrdd â phob maes gwaith o fewn y Cyngor, ac yn rhoi fframwaith yn ei le i wella tegwch o fewn y sefydliad ac i sicrhau ein bod yn trin pobl yn ôl anghenion. Mae'r Gymraeg yn ganolog i holl agweddau'r cynllun.

Polisi Sicrwydd Ansawdd - Mae gwaith ar y gweill i lunio polisi Sicrwydd Ansawdd i'r Adran a fydd yn nodi'r anghenion a disgwyliadau ieithyddol.

Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Gwynedd 2022-2032 - Mae Adrannau'r Cyngor, ysgolion a phartneriaid ehangach yn ymrwmo i wireddu holl nodau ac amcanion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ac yn sgil hynny gefnogi strategaeth Llywodraeth Cymru i gyrraedd y nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, gan sicrhau bod cyfleoedd ar bob cyfnod ym mywyd unigolyn i ddysgu Cymraeg ac i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym yn gyfrifol am arwain ar sicrhau darpariaeth addysg feithrin (10 awr yr wythnos i blant tair oed) a darpariaeth gofal plant Dechrau'n Deg (12.5 awr yr wythnos i blant dwy oed).

Prosiectau yng nghynllun y Cyngor

- **Gwynedd Gymraeg** - Mae 'Gwynedd Gymraeg' yn ffrwd gwaith o Gynllun y Cyngor, gyda'r Adran Gwasanaethau Corfforaethol yn arwain ar brosiectau i 'Hybu defnydd o'r Gymraeg gan drigolion Gwynedd'. Mae'r holl brosiectau dan Strategaeth Iaith Gwynedd 2023 – 2033 yn cyfrannu at y gwaith. Mae gwaith Strategaeth Iaith Gwynedd wedi ei rannu yn 5 maes gweithredu, ac rydym hefyd yn dangos sut mae amcanion ein strategaeth yn cyfrannu at 3 prif faes strategaeth Cymraeg 2050.
- **Ymchwil** - Mae'r Gwasanaeth Ymchwil a Gwybodaeth yn dadansoddi a rhannu gwybodaeth am sefyllfa'r iaith Gymraeg yn y sir, er mwyn llywio penderfyniadau a pholisïau ar draws y Cyngor gan gynnwys Cynllun y Cyngor.
- **Gwynedd Yfory - Ymestyn cyfleoedd chwarae a chymdeithasu ar gyfer plant a phobl ifanc y sir.**

Mae cyfleoedd chwarae yn bwysig i ddatblygiad plentyn, ag mae'r Uned Blynyddoedd Cynnar yn ariannu darparwyr sydd ar Fframwaith Darparwyr Gweithgareddau i gynnal amrywiaeth o sesiynau chwarae ar draws y Sir, a rhain i gyd yn Gymraeg neu'n ddwyieithog.

Mae Trelar Chwarae hefyd yn mynd i leoliadau ar draws y Sir yn ystod gwyliau ysgol i gynnal sesiynau chwarae, am ddim, i blant hyd at 12 oed. Mae staff yr Uned i gyd yn rhugl yn y Gymraeg ac yn darparu'r gweithgareddau yn Gymraeg.

Ceir ffocws amlwg ar ddatblygu sgiliau plant yn ieithyddol yn y Gymraeg a gwneir hyn gan y Swyddogion Chwarae, Datblygiad a Iaith sy'n yn gwasanaethu yn ardaloedd Dechrau'n Deg a gweddill y sir. Cynhelir sesiynau Camau Bach a gwaith yn y cartref. Mae'r tîm hefyd yn hyrwyddo defnydd o adnoddau Cymraeg fel llyfrau ac i deuluoedd ymaelodi gyda Llyfrgelloedd.

Mae Meithrinfa Plas Pawb yn cynnig gofal plant o ansawdd mewn awyrgylch Gymraeg i blant o 3 mis oed i fyny.

Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn hyrwyddo cyfleoedd chwarae a chymdeithasu i deuluoedd Gwynedd drwy nifer o ffyrdd ar y cyfryngau cymdeithasol

- **Gwynedd Llewyrchus - Cadw'r Budd yn Lleol**

Mae prosiect Cadw'r Budd yn Lleol yn ceisio uchafu'r budd lleol a thrwy hyn yn hyrwyddo a datblygu'r iaith.

Mae'r Uned Blynyddoedd Cynnar yn sicrhau bod unrhyw tendrau gofal plant yn mynd i ddarparwyr gofal plant y Sir ymgeisio, gyda holiadur sgiliau Cymraeg yn rhan o'r meini prawf.

Gyda grantiau Llywodraeth rydym yn archebu adnoddau, llyfrau ag ati gan gwmnïau lleol, ag yn annog darparwyr gofal plant i ddefnyddio unrhyw gyllideb grant i archebu gan cwmnïau lleol.

- **Gwynedd Ofalgar** - Sicrhau bod plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn byw bywydau hapus ac yn cyrraedd eu potensial o ran eu haddysg, eu hiechyd a'u lles.

Mae'r gefnogaeth mae'r Uned Blynyddoedd Cynnar yn ei roi i darparwyr gofal plant y Sir yn allweddol i sicrhau gofal ag addysg cynnar o'r safon uchaf gyda nifer o ddarparwyr yn derbyn rhagoriaeth gan Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru.

Hefyd ceir darpariaeth gofal plant o ansawdd uchel ym Meithrinfa Plas Pawb. Yn ddiweddar rydym wedi cydweithio gyda'r Academi Gofal i gynnig prentisiaethau gofal plant sydd yn adeiladu ar weithlu gofal plant Cymraeg i'r dyfodol.

- **Gwynedd Gymraeg** - Mae 'Gwynedd Gymraeg' yn ffrwd gwaith o Gynllun y Cyngor, gyda'r Uned Blynyddoedd Cynnar yn sicrhau bod y ddarpariaeth Addysg Feithrin (10 awr yr wythnos i blant tair oed) a darpariaeth gofal plant Dechrau'n Deg (12.5 awr yr wythnos i blant dwy oed) yn trochi'r plant yn y Gymraeg.

Drwy wneud gwaith ymchwil manwl i'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant a Chwarae asesir y bylchau gan cynhyrchu rhaglen waith glir i'r tîm i gydweithio gyda'r sector i wthio gwelliannau i'r dyfodol.

- **Gwynedd Werdd** - Mae staff yr Uned Blynyddoedd Cynnar yn annog darparwyr gofal plant ag Addysg Feithrin i ailgylchu, i beidio archebu adnoddau plastig (un defnydd) i ddefnyddio siopau elusen ar gyfer adnoddau, dodrefn ag unrhyw offer addas sydd ei angen yn y lleoliad.

Blaenoriaeth Gwynedd Ofalgar:

- **Moderneiddio ein hadnoddau gofal i gwrdd ag anghenion y dyfodol**

Byddwn yn moderneiddio ein cartrefi gofal, yn diweddarau ein hadnoddau cymunedol ac yn ehangu'r opsiynau llety sydd ar gael i drigolion Gwynedd.

- **Defnyddio mwy ar dechnoleg i wella gallu trigolion Gwynedd i gael mynediad at gefnogaeth a gofal**

Byddwn yn galluogi pobl Gwynedd i fyw eu bywyd gorau cyn hired a phosib o fewn eu cymunedau'n lleol.

- **Cydweithio gyda Gwasanaethau Iechyd i alluogi pobl i fyw eu bywyd gorau yn y gymuned**
I sicrhau ein bod yn hyrwyddo llesiant unigolion yn llawn, mae'n hollbwysig ein bod yn medru newid ein diwylliant a sicrhau ein bod yn cydweithio'n effeithiol gyda'r Bwrdd Iechyd i ddarparu gwasanaethau gofal ac iechyd cynhwysfawr i'r dyfodol.
- **Datblygu cyfleon hyfforddi a gwaith ar gyfer unigolion sydd angen cefnogaeth**
Byddwn yn hyrwyddo cyfleon hyfforddi a gwaith ar gyfer unigolion sydd angen cefnogaeth.
- **Llechan Lân**
Byddwn yn paratoi dadansoddiad o ddemograffeg Gwynedd; y galw am wasanaeth; ac arferion gorau gwasanaethau cymdeithasol oedolion er mwyn deall ac amlygu y galw am wasanaeth a'r adnoddau cysylltiedig a fydd eu hangen ar gyfer yr ugain mlynedd nesaf.
- **Llechan Las**
Tebyg iawn i Llechan Lân ond bod Llechan Las yn edrych yn benodol ar gwasanaethau cymdeithasol, addysg a tai i blant anabl Gwynedd. Mae hyn er mwyn deall y galw ac yr adnoddau sydd ei angen.
- **Cefnogi Llesiant Pobl**
Mae rhai trigolion yn ei chael hi'n anodd i ymdopi gyda heriau bywyd ac mae sefyllfa nifer o drigolion wedi gwaethygu yn sgil yr argyfwng costau byw. Mae'r trigolion hyn angen cefnogaeth i ymdopi, i ffynnu, i fod yn ddiogel, ac i gadw'n iach. Mae gennym rwydwaith eang drwy ein cymunedau sy'n helpu ac yn cefnogi trigolion i ymdopi ac yn ymateb i'w hanghenion amrywiol. Mae'r rhwydwaith honno angen cefnogaeth i gynnal yr ymdrech gwirfoddol hwnnw, a byddwn yn gweithio i gryfhau'r gwaith hanfodol yma dros y blynyddoedd nesaf.
- **Cynllun Awtistiaeth**
Mae plant, pobl ifanc ac oedolion awtistig yn ei chael hi'n anodd cael y gefnogaeth arbenigol sydd ei hangen arnynt, yn enwedig yn y Gymraeg. Byddwn felly yn gwella'n darpariaeth a'i gwneud hi'n haws i unigolion a'u teuluoedd i drosglwyddo rhwng gwahanol wasanaethau.
- **Datblygu darpariaeth breswyl i blant mewn gofal mewn cartrefi grŵp bychan.**
Rydym am wella profiadau'r plant sydd yn ngofal y Cyngor gydag anghenion dwys a chymhleth, sydd ar hyn o bryd yn gorfod gadael y sir neu Gymru er mwyn cael darpariaeth addas. Byddwn yn datblygu cartrefi preswyl cofrestredig ar gyfer grwpiau bychan o hyd at ddau o blant fydd yn caniatáu iddynt gael gofal yng Ngwynedd, mynychu ysgolion lleol, a chymryd rhan gyflawn ym mywyd eu cymunedau.

Prosiectau a chynlluniau eraill

Iaith y Blynyddoedd Cynnar

Fframwaith Darparwyr Gweithgareddau - mae rhestr o ddarparwyr sydd ar y Fframwaith hwn wedi cwblhau holiadur sgiliau Cymraeg, ag yn gallu darparu gweithgareddau yn Gymraeg, neu ddwyieithog.

Rhestr Darparwyr Gofal Plant Cymeradwy – mae'r darparwyr gofal plant sydd wedi cymeradwyo wedi cwblhau holiadur sgiliau Cymraeg, ag yn darparu gofal plant yn Gymraeg, neu ddwyieithog. Unrhyw darparwr sydd ddim yn cael eu cymeradwyo oherwydd sgiliau iaith yn cael eu cyfeirio am gefnogaeth:

- [Cynllun CAMAU](#) i annog gweithlu'r sector gofal plant i ddefnyddio a gwella eu sgiliau iaith Gymraeg
- [Cynllun Croesi'r Bont](#) (Mudiad Meithrin) i drochi'r Gymraeg o fewn cylchoedd meithrin a chynyddu pontio ieithyddol gydag ysgolion. Mae 17 lleoliad ar y cynllun ar hyn o bryd.

Iaith Dysgu

Mae sicrhau cyfleoedd dysgu cysylltiedig i waith, megis prentisiaethau, yn gallu bod yn heriol. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda darparwyr addysg bellach i ddarparu cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg, ond mae prentisiaethau gwaith cymdeithasol yn brin yng Nghymru. Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda'r Academi Gofal yng Ngwynedd i ddarparu llwybr gyrfa broffesiynol glir, gan gynnwys hyfforddi a chymhwyso drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r strategaeth hefyd yn annog mwy o staff y Cyngor i ddysgu'r Gymraeg a gwella eu sgiliau iaith. Ers Ebrill 25, mae 62 aelod staff wedi bod ar gyrsiau iaith, gan gynnwys cyrsiau dysgu'r iaith o'r newydd, cyrsiau cynyddu sgiliau iaith, a chysiau gloywi iaith. Mae tiwtor iaith ar gael yn benodol i'r maes gofal ar hyn o bryd tan Mawrth 2027 – ariennir hwn drwy gynllun Cymraeg Gwaith a Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae mwy o staff yn cael hyfforddiant iaith lefel Mynediad a Chodi Hyder. Yn ogystal, mae ambell i aelod o staff wedi bod ar gwrs wythnos i Nant Gwrtheyrn. Mae rhyddhau amser staff rheng flaen ar gyfer hyfforddiant iaith yn heriol oherwydd heriau recriwtio a sicrhau chysondeb mewn gofal.

Rydym eisoes yn gweithredu cynllun paru siaradwyr Cymraeg ac yn gobeithio cynnal mwy o gyfleoedd anffurfiol i ddysgwyr ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg yn y dyfodol.

[CYNLLUN CYFEILLION CYMRAEG](#)

Byddwn yn rhoi mwy o sylw i ddatblygiad sgiliau Cymraeg ymysg y gweithlu, yn enwedig oherwydd heriau recriwtio gweithlu gofal ac arbenigol. Mae'r mater o orfodi hyfforddiant iaith a sicrhau gwelliant o fewn cyfnod penodol wedi cael ei godi mewn cyfarfod o Grŵp Mwy na Geiriau Gwynedd, ac mae trafodaethau'n parhau. Pwysig yw nodi ein bod wedi gwneud penderfyniad ymwybodol i beidio cyflogi staff asiantaethau, gan nad oedd modd sicrhau gweithlu Gymraeg, felly mae'n bwysig ein bod yn rhoi amser digonol i hyfforddiant a chefnogi ein staff i siarad y Gymraeg.

Iaith y Gymuned

Mae Gwynedd yn sir sy'n enwog am ei chanran uchel o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg. Yn ôl Cyfrifiad 2021, roedd 64.3% o'r boblogaeth dros 3 oed yn gallu siarad Cymraeg, sef 73,558 o bobl allan o 114,312. Mae Gwynedd yn cynnwys rhai o gadarnleoedd cryfaf y Gymraeg, felly mae'n hynod bwysig fod Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd yn gallu ymateb i hynny.

Iaith a Gwaith

Rydym eisoes wedi cyfeirio at yr heriau o safbwynt sgiliau iaith ein gweithlu ac anawsterau recriwtio, a gellid ailymweld â'r un wybodaeth mewn perthynas ag amcanion y strategaeth iaith i fod yn mynd tu hwnt i ofynion Safonau'r Gymraeg gan ganolbwyntio ar gynyddu defnydd er mwyn gallu profi'r angen yn fwy effeithiol. Mae'r gwasanaethau cymdeithasol wedi bod yn rhan o gynllun ymchwil ARFer gan Brifysgol Bangor, sy'n edrych ar sut mae modd dylanwadu ar arferion ieithyddol timau gwaith.

Mae cyfathrebu'n ganolog i'r gallu i ddeall anghenion unigolion ac ymateb iddynt. Er bod y timau gwaith cymdeithasol yn hyderus yn eu gallu i ddarparu cefnogaeth drwy gyfrwng y Gymraeg, nid yw mesur llwyddiant yn hawdd. Mae amgylchiadau lle mae'n rhaid i oedolion neu blant gael eu lleoli mewn lleoliadau lle nad oes darpariaeth Gymraeg, ac mae cefnogaeth Gweithwyr Cymdeithasol yn hollbwysig yn y sefyllfaoedd hyn.

Mae'r strategaeth "Mwy na Geiriau" yn bwysig i gryfhau gwasanaethau Cymraeg ym maes iechyd a gofal, gan gynnwys cynnig rhagweithiol i adnabod yr angen am wasanaethau Cymraeg a'u darparu yn ddiodyn. Mae grŵp bychan wedi ei sefydlu i arwain ar y gwaith sy'n deillio o gynllun 5 mlynedd diweddarar Llywodraeth yn y maes yma.

Mae'r ddwy Adran, Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ac Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ar y wefan gorfforaethol. Yn ogystal, mae'r gwasanaeth wedi cyfrannu at ymgyrchoedd penodol i hybu defnydd o'r Gymraeg, megis Galw Gofalwyr neu ymgyrch Maethu Cymru.

Rhaid pwysleisio'r angen i gefnogi'r sector breifat i ddefnyddio'r Gymraeg, gan gynnwys cymalau iaith o fewn cytundebau gofal cartref a chytundebau preswyl a nyrsio. Mae'r gwasanaeth wedi dechrau rhoi sylw i gymalau iaith o fewn cytundebau gofal oedolion a plant er mwyn sicrhau eglurder a'u cryfhau i gyd-fynd ag egwyddorion fframwaith "Mwy na Geiriau".

Ymchwil a Thechnoleg

Gwyddom fod darpariaeth technoleg yn y Gymraeg yn gallu creu problem, boed hynny gan nad yw ar gael neu safon yr iaith, ond rhaid nodi pa mor hanfodol ydi technoleg yn ein bywyd dydd i ddydd. Credwn hefyd fod technoleg yn ganolog i ateb yr her o alw cynyddol yn y maes gofal, gweler isod ein prif llif gwaith parthed ag ymchwil a thechnoleg.

1. Helpu'n Hun

Meddalwedd sy'n darparu gwasanaeth therapydd galwedigaethol rhithiol i alluogi oedolion, plant a'u teuluoedd i gael cyngor drwy'n gwefan ar ffyrdd y gallent geisio cynorthwyo eu hunain o ddydd i ddydd.

Mae'r system hunan asesu, yn dilyn ein cydweithio â'r cwmni, nawr ar gael yn Gymraeg i bawb drwy Gymru.

'Helpu'n Hun' fydd enw'r system yng Ngwynedd.

[Helpu'n Hun: online self-assessment tool](#)

<https://www.facebook.com/share/r/1Fs5vVXxVn/>

2. Ap AiDi:

Ap wedi'i gomisiynu i gefnogi gofalwyr di-dâl a gofalwyr ifanc.

Mae'r ap yn darparu cerdyn adnabod, gwybodaeth ddefnyddiol, a dangos gostyngiadau mewn siopau lleol i ofalwyr. Law yn llaw a fod yn arf cyswllt â'r ysgol.

Dyma'r unig ap dwyieithog o'i fath ac o ganlyniad mae trafodaethau'n digwydd ar lefel ranbarthol a chenedlaethol gyda'r bwriad i awdurdodau eraill fabwysiadu'r ap hefyd

3. Teleofal:

Bydd offer digidol teleofal newydd yn cael ei anfon erbyn Rhagfyr 2025.

Roedd yn amod cytundebol gyda'r cwmni darparu fod y dechnoleg ar gael drwy'r Gymraeg.

Rydym fel tîm teleofal yn gweithio gyda'n darparwr offer digidol, Chiptech, i gyfieithu'r côd yn yr unedau teleofal er mwyn cael uned sydd â'r gallu i siarad yn y Gymraeg.

Mae'r dechnoleg fodern ddiweddaraf sydd yn cael eu datblygu yn y maes gofal yn aml yn cael ei datblygu gan gwmnïau mawr (e.e. Amazon), ac mae galluogi defnydd o'r dechnoleg yma yn y Gymraeg yn her.

4. Grŵp Mwy na Geiriau:

Rydym yn parhau i fynd i'r afael â'r anawsterau ieithyddol sy'n bodoli wrth geisio gweithio'n amlddisgyblaethol gyda thimau staff lle mae sgiliau iaith Gymraeg yn amrywio.

Datblygu 'plug-in' i alluogi gweithwyr proffesiynol i weld fersiwn wedi'i chyfieithu wrth gofnodi ar bas data gofal cymdeithasol.

Fe grëwyd nifer o fideos Cymraeg a Saesneg er mwyn hyrwyddo'r defnydd o Mwy Na Geiriau'n y gweithlu. Mae'r fideos yn cael ei rhannu yn gyson ar y cyfryngau cymdeithasol.

5. Ap Niwro

Cafodd Ap rhyngweithiol 'Niwro' ei lansio cychwyn y flwyddyn ar gyfer unigolion awtistig/ ND, eu teuluoedd, bobl broffesiynol a'r cyhoedd i gael mynediad i wybodaeth, cyngor ag arweiniad.

Dyma'r unig ap dwyieithog o'i fath ac o ganlyniad mae trafodaethau'n digwydd ar lefel ranbarthol a chenedlaethol gyda'r bwriad i awdurdodau eraill fabwysiadu'r ap hefyd

6. Taliadau Uniongyrchol.

Fe gymerodd y Gwasanaeth Cymdeithasol gyfrifoldeb am y gwasanaeth yma yn ddiweddar gan felly drawsnewid y gwasanaeth Cymraeg. Er enghraifft, bellach mae bob sgwrs yn cychwyn yn y Gymraeg.

8. Grwpiau Dementia Actif

Mae gan Dementia Actif bresenoldeb ar draws Gwynedd bellach gan sicrhau sesiynau i bobl yn y Gymraeg. Mae Dementia Actif yn cynnig cyfleoedd gweithgaredd corfforol grŵp i gefnogi ac ehangu ansawdd bywyd pobl sy'n byw gyda dementia, mae'r gweithgareddau yn cynnwys dosbarthiadau ymarfer corff, cynghrair Boccia, gweithgareddau ar-lein a llawer mwy.

9. Mosaic

Un o'r newidiadau fwyaf blaenllaw a ddaw yn y flwyddyn nesaf i'n gweithlu yw trosglwyddo system cofnodi mewnol y Gwasanaeth o WCCIS i Mosaic.

Roedd Mosaic yn system oedd ar gael yn genedlaethol yn uniaith Saesneg. Roedd Cyngorau ar draws y ffin yn ei defnyddio eisoes a felly gwyddom am ei llwyddiant ond bu i Gyngor Gwynedd fod yn flaenllaw yn sicrhau fod y system yn mynd i fod ar gael yn y Gymraeg. Bu cryn trafodaethau a gwnaethpwyd yn glir fod rhaid i'r system weithredu'n y Gymraeg cyn y byddem yn cytuno i'w brynu. Diolch i'r gwaith yma bydd cyfle i siroedd eraill yng Nghymru'n elwa o'r system yn y Gymraeg.

10. Beam Notes

Mae Beam Notes wedi cael ei dreialu gan grŵp o staff dros y misoedd diwethaf, ac yn dilyn cyfnod llwyddiannus o dreialu mae'n cael ei rowlio allan yn ehangach ar draws Adrannau Oedolion, Plant a TA. Meddalwedd ar liniadur neu ffôn symudol gwaith sy'n gwrando ar sgwrs wyneb i wyneb, sgwrs Teams neu recordiad a chofnodi a chrynhai cynnwys y sgwrs yw Beam Notes. Mae'n gallu lleihau'r baich a'r pwysau gweinyddol o gymryd nodiadau papur, gwella cywirdeb a chysondeb nodiadau ac mae'n helpu chi fwydo gwybodaeth i systemau fel WCCIS/Mosaic. Mae'r treialu wedi profi bod Beam Notes yn gywain yn yr Iaith Gymraeg, ac yn cyflwyno iaith safonol i anghenion Iaith Cyngor Gwynedd.

2. Beth arall sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn codi statws y Gymraeg a sicrhau cyfleoedd i bobl i ddefnyddio'r Gymraeg?

Dros y flwyddyn nesaf bydd gwaith parhaus yn digwydd yn y Gwasanaeth er mwyn codi statws y Gymraeg a sicrhau cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Rydym fel Cyngor yn gweithredu yn y man cyntaf yn y Gymraeg, ac mae'n bwysig ein bod ni yn parhau i wneud hynny wrth hefyd bwysleisio'r angen i godi hyder a gallu ein staff yn yr iaith. Yn ogystal, bydd cynnig rhagrithiol i gefnogi staff i wella eu sgiliau cyfathrebu'n ysgrifenedig yn y Gymraeg.

Bydd y Gwasanaeth Cymdeithasol cyfan yn parhau gyda'i hymdrech o baratoi cyfathrebu clir ym mhob maes o'u gwaith, boed hynny ar gyfer y cyhoedd neu ar gyfer staff. Byddwn yn parhau i wneud gwelliannau i'n tudalennau ar wefan gorfforaethol y Cyngor, yn paratoi gwybodaeth gyfredol a chywir i'n defnyddwyr gwasanaeth a darpar ddefnyddwyr gwasanaeth a bydd hyn oll yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Bydd gwelliannau ym myd Teleofal, dan arweiniad yr Adran Fusnes a'r Adran Oedolion, lechyd a Llesiant yn sicr yn codi statws yr iaith. Rhaid hefyd pwysleisio gwaith gweithwyr Cefnogol Dementia. Maent yn cynnig gwasanaeth a chefnogaeth Cymraeg ar draws y sir. Mae siarad yn eich mamiaith tra'n byw â Dementia yn holl bwysig a gobeithiwn ddatblygu y gwaith yma ym mhellach yn ystod y misoedd sydd i ddod.

Wrth ystyried Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd byddwn yn gobeithio datblygu y prosiect grŵp tai bychan ym mhellach er mwyn cynyddu ein cynnig o lety lleol i blant mewn gofal. Bydd hyn yn codi

statws y Gymraeg gan y byddwn yn gallu sicrhau y bydd plant a phobl ifanc ein sir yn cael y cyfle i aros yng Ngwynedd a'i meithrin yn y diwylliant Cymreig.

Yn ail bydd yr Ap Niwro yn cael ei hyrwyddo'n 'mhellach er mwyn rhoi cyfle rhyngweithio i drigolion y Sir a hynny yn y Gymraeg. Mae rhoi cyfleon am wybodaeth o'r fath yn y Gymraeg yn sicr yn codi statws yr iaith. Mae Siroedd eraill bellach yn cychwyn buddsoddi yn yr ap hefyd wrth bod Gwynedd ar y blaen yn gallu cynnig ap drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer defnyddwyr.

Wrth ystyried yr Uned Blynnyddoedd Cynnar mae'r staff i gyd yn Gymraeg a mae ganddynt lu o weithgareddau i godi statws yr iaith. Yn gyntaf, podlediad Mam, Dad a Magu - cyfres podlediad uniaith Gymraeg ar hyn o bryd, gyda'r nod o gefnogi teuluoedd ar eu taith rhiantu. Gyda'r gyfres gyntaf yn derbyn adborth bositif mae'r ymchwil yn parhau i gynhyrchu rhagor o bodlediadau ar bynciau ynghylch rhai o'r heriau cyffredin mae rhieni yn eu hwynebu.

Yn ail mae'r trelar Chwarae – cynnal rhagor o sesiynau chwarae, am ddim, i plant a theuluoedd yn ystod y gwyliau ysgol. Bydd darparu'r sesiynau yn y Gymraeg yn hybu defnydd o'r iaith.

Mae'r adran fusnes ar fin lansio system newydd i gasglu data. Mae PERCCI (Person-Centred Community Care Inventory) yn holiadur byr sy'n helpu i fesur ansawdd gofal o safbwynt yr unigolyn sy'n ei dderbyn. Mae'n cynnwys 12 cwestiwn sy'n cael eu sgorio gan yr ymatebydd, ac wedyn mae'r pwyntiau yn cael eu cyfrif i greu sgôr cyffredinol. Mae'r cwestiynau hyn wedi'u cyd-gynllunio gyda phobl sydd â phrofiad uniongyrchol o dderbyn gofal, ac mae o wedi'i brofi'n drylwyr er mwyn sicrhau effeithiolrwydd. Mae hanner yr holiadur yn canolbwyntio ar y gweithwyr gofal sydd wedi bod yn helpu'r unigolyn, tra bod yr hanner arall yn edrych ar y gofal a'r cymorth gyfan. Mae fersiwn Gymraeg ar gael, ac byddem yn falch o allu cynnig y gwasanaeth yma trwy gyfrwng y Gymraeg, a'i ddsbarthu fel bod pawb yn gallu cymryd rhan yn y ffordd sy'n teimlo'n naturiol iddyn nhw.

Yn olaf rydym hefyd wedi sicrhau fod gan bob plentyn sydd yn byw y thu allan i Wynedd neu y thu allan i Gymru eiriolwr Cymraeg. Mae hyn ar gyfer plant mewn gofal maeth neu gofal preswyl. Mae'r gallu i drafod yn y Gymraeg yn holl bwysig a theimlwn fod y ddarpariaeth yma yn ei gwneud hi'n haws i'r plentyn drafod. Yn yr un modd rydym wedi mynnu fod y bwrdd rhanbarthol yn cynnig darpariaeth Cymraeg ar gyfer asesu rhieni. Gwynedd oedd yr unig sir i fynnu cael y ddarpariaeth yma, sydd yn wir esiampl o godi statws yr iaith.

3. Ydy datblygiad technoleg wedi amharu ar eich gallu i ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg? Os yn berthnasol rhowch enghraifft. Sut ydych chi'n sicrhau nad yw datblygiad technoleg yn effeithio ar eich gallu i ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg?

Mae Cynllun Digidol y Cyngor yn nodi: 'Mae rhan flaenllaw i'r Gymraeg ym mhob datblygiad digidol, gyda phob datblygiad mewnol yn cael ei wneud yn ddwyieithog, heb eithriad, a'r gosodiad diodyn yn y Gymraeg. Mae priod-le i'r Gymraeg ym mhob datblygiad, ac fe adlewyrchir hyn yn yr Asesiad Addasrwydd Digidol fydd yn gam gorfodol cyn bod unrhyw un o adrannau'r Cyngor yn caffael system neu wasanaeth digidol'.

Gyda hyn mewn cof rydym fel Gwasanaeth Cymdeithasol yn ceisio sicrhau fod unrhyw dechnoleg yr ydym yn ei ddefnyddio i ddarparu gwasanaethau gofal ar gael yn Gymraeg ond mae hyn yn creu heriau. Yn aml, mae'r dechnoleg ddiweddaraf sydd ar gael yn arbenigol iawn ei natur ac ar gael yn Saesneg yn unig. Rydym yn ceisio cydweithio gyda chwmnïau i ddatblygu yn Gymraeg ond yn ei chael yn anodd ennyn y diddordeb i wneud hynny oni bai fod ffynhonnell ariannol ychwanegol ar gael iddynt.

**4. Sut ydych chi'n cadw cofnod o'r bobl sy'n defnyddio eich gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg? Allwch chi rannu data perthnasol?
*Unrhyw ddata arall perthnasol***

Yn unol a chyfrifiad yng Nghymru (2021) bod canran uchaf o bobl, tair oed a hŷn, sy'n gallu siarad Cymraeg yn byw yng ngogledd-orllewin Cymru, gyda 64.4% yng Ngwynedd. Dyma'r trigolion yr ydym ni yn wasanaethau. Mae rhan helaeth o Weithiwr Cymdeithasol yn siarad Cymraeg, yn unol a gofynion swyddi Cyngor Gwynedd, ac felly mae modd i'n defnyddwyr gwasanaeth dderbyn gwasanaeth drwy eu iaith dewisol.


Oedolion, Iechyd a Llesiant:

Yn ystod asesiad cychwynnol gyda'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant bydd defnyddiwr gwasanaeth yn cael y cyfle i lenwi dogfen 'Beth sy'n bwysig?'. Yn y ddogfen hon bydd y defnyddiwr gwasanaeth yn nodi ffafriaeth iaith, yn ogystal a gofyn os wnaeth yr gweithiwr/asesydd gychwyn y sgwrs yn y Gymraeg. Mae cyfle hefyd i egluro y rhesymau dros beidio cynnal yr asesiad drwy gyfrwng y Gymraeg. Caiff y wybodaeth yma ei gadw ar ffeil yr unigolyn.

Rydym wedi adolygu ac addasu ein ffurflen asesu yn ddiweddar i gryfhau ein gallu i gofnodi dewis iaith a sicrhau cydymffurfiaeth a gofynion Mwy na Geiriau.

Plant a Chefnogi Teuluoedd:

Yn yr un modd mae Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd yn gweithredu. Ceir y wybodaeth yma ei gasglu yn ystod yr asesiad cychwynnol. Mae'r Cyfrifiad Plant blynyddol ar gyfer 2024/25 yn nodi bod 367 o blant (3 oed drosodd) wedi dewis Cymraeg fel eu iaith dewisol allan o 891 (41%).



Blynyddoedd Cynnar yn gweithredu ychydig yn wahanol. Ceir llinell ffôn genedlaethol sydd yn Cynnig Gofal Plant Cymru. Maent yn ymateb i alwadau ffôn gan rieni a darparwyr gofal plant ar draws Gwynedd, Môn a Conwy. Yn ystod y 60 diwrnod olaf mae 84 o alwadau ar y llinell gymorth Cymraeg, a 265 ar y llinell gymorth Saesneg. O'r rhai sydd yn galw ar y llinell gymorth Saesneg, mae tua 2% yn siarad Cymraeg unwaith maent yn deall bod y swyddog sydd wedi ateb yn siaradwr

Cymraeg.

Ceir hefyd Dechrau'n Deg a Gofal Plant 2 Oed – mae'r gwasanaethau yma yn cael ei ddarparu yn y Gymraeg yn unol â pholisi iaith Cyngor Gwynedd. Erbyn hyn gyda ehangiad y ddarpariaeth, mae yna ddau leoliad yn darparu gwasanaeth yn ddwyieithog.

Yna mae Gwybodaeth i Deuluoedd – mae'r tîm Gwybodaeth i Deuluoedd yn cadw ystadegau fel cofnod o'r dewis ieithyddol gan ymholwyr. Yn y flwyddyn 2025-26 derbyniwyd 217 ymholiad a dewisodd 74% ohonynt yr opsiwn i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae 36% o ymwelwyr i dudalen wefan Teulu Gwynedd wedi dewis yr opsiwn Gymraeg.

Mae'r tîm cefnogi teuluoedd yn cynnig gefnogaeth i deuluoedd yn y maes rhiantu ac ymddygiad i fyny oedran deunaw, ac yn y flwyddyn 2025-26 derbyniodd 44% o'r teuluoedd y gefnogaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r tîm cefnogi teuluoedd hefyd yn cynnig gefnogaeth i deuluoedd yn y maes Datblygiad Iaith, chwarae a sgiliau datblygiadol yn y blynyddoedd cynnar. Yn y flwyddyn 2024-25 derbyniodd 62% o'r teuluoedd y gefnogaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

5. Beth yw sgiliau iaith eich staff?

Ar draws y gwasanaethau cymdeithasol, mae oddeutu 1,600 o staff, gweler isod ddata parthed eu sgiliau iaith.

OEDOLION, IECHYD A LLESIANT

Wedi cael asesiad iaith	1131 83.6%
Wedi cwblhau'r hunanasesiad iaith	916 81.0%
Cyrraedd dynodiadau iaith y swydd	775 82%
Ddim yn cyrraedd dynodiadau iaith y swydd	170 18%

PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD

Wedi cael asesiad iaith	438 86.6%
Wedi cwblhau'r hunanasesiad iaith	419 82.8%
Cyrraedd dynodiadau iaith y swydd	412 94.1%
Ddim yn cyrraedd dynodiadau iaith y swydd	26 5.9%

6. Rhowch enghreifftiau o unrhyw rwystrau, cwynion a chanmoliaeth sy'n gysylltiedig gyda darparu a hyrwyddo gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.

Rhwystrau

1. Heriau Recriwtio

Fel soniwyd eisoes, anhawster recriwtio gweithlu gofal sy'n cyrraedd gofynion iaith y swydd, yn enwedig mewn rhai ardaloedd. Problemau penodol i recriwtio ym maes therapi galwedigaethol, gan orfodi penodi therapyddion di-Gymraeg.

Mae sefydlu'r Academi Gofal yn cynorthwyo gyda'r gwaith o oresgyn y problemau hyn, gan y bydd y Gymraeg ac egwyddor y cynnig rhagweithiol yn ganolog i'r datblygiadau hyn. Mae Cynllun Gweithlu wedi ei ddatblygu ar draws y ddwy adran. Mae'r cynllun yn cynnwys:

Ymgyrchoedd Recriwtio: Deunydd hyrwyddo, fideos, ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol parhaus yn galw am ofalwyr ac yn hyrwyddo'r maes.

Gweithdai Cynllunio'r Gweithlu: Cynnal gweithdai gyda gwasanaethau.

Cydweithio gydag Adnoddau Dynol: Gwefan newydd swyddi'r Cyngor ac ar drefniadau cyfweliadau gadael.

2. Darpariaethau Gofal

Mae cyfyngiadau wrth sicrhau lleoliad gofal dwys i blant neu oedolion ag Anableddau Dysgu, ac yn aml mae rhaid mynd y thu allan i'r sir. Fel soniwyd, mae yna brosiectau wedi eu hadnabod fel rhan o Gynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 i fynd i'r afael â'r diffyg darpariaeth yma yng Ngwynedd:

Datblygu darpariaeth breswyl i blant: Cartrefi grŵp bychan cofrestredig ar gyfer hyd at ddau o blant, gan ganiatáu iddynt gael gofal yng Ngwynedd, mynychu ysgolion lleol, a chymryd rhan ym mywyd eu cymunedau.

Tai â Chefnogaeth yn y Gymuned: Isafswm o 6 tŷ newydd ar hyd a lled y sir i gynnig cartrefi gofal addas a diogel i unigolion ag Anableddau Dysgu. Blaenoriaethu unigolion sydd wedi eu lleoli yn all-sirol i ddychwelyd i Wynedd os ydynt yn dymuno.

3. Troseddwyr Ifanc

Yn yr un modd rydym hefyd yn bryderus am anghenion ieithyddol troseddwyr ifanc sydd yn derbyn dedfryd o garchar. Gan y golygai hyn fod troseddwyr ifanc wedi'u lleoli yn Lloegr oherwydd diffyg darpariaeth addas yng Ngogledd Cymru, gan wanhau cysylltiad gyda'u teulu, iaith, a diwylliant. Mae'n fater pryder ac mae wedi'i uchafu i Lywodraeth Cymru ers blyneddau, ond mae'r sefyllfa yn parhau yr un fath, gan roi pobl ifanc o Wynedd dan anfantais.

Cysur mawr yw'r gwaith caled y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, gan na fu i unrhyw un dderbyn dedfryd o garchar ers Mehefin, 2023 a dim ond 1 esiampl o garcharu sydd wedi bod yn ystod y pum mlynedd diwethaf.

4. Gweithio gyda partneriaid

Mae cynnal gwasanaethau integredig ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd yn creu heriau i ni yn ieithyddol gan fod nifer o'r cyfarfodydd yn cychwyn yn Saesneg. Rydym yn ymdrechu i ddylanwadu, er enghraifft drwy bwysu i sicrhau darpariaeth cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd fwy ffurfiol. Mae'r un peth yn wir wrth i ni fynychu cyfarfodydd rhanbarthol a chenedlaethol yn y maes. Nid yw nifer o'n partneriaid yn cynnig darpariaeth gyfieithu, yn enwedig mewn cyfarfodydd rhithiol ac mae'n rhaid i ni ofyn a phwysu yn aml am y gallu i gyfrannu'n Gymraeg.

Mae gweithio gyda'r Llywodraeth hefyd yn cynnig rhwystrau o ran diffyg cyfieithu dogfennau yn gywir i'r Gymraeg ac anghysondeb rhwng y Gymraeg a Saesneg.

5. Cydweithio gyda Cyfathrebu mewnol i hyrwyddo 'Mwy na geiriau (TikTok/Insta/facebook)

Gall gweithio gyda tîm cyfathrebu mewnol ar faterion sy'n ymwneud â diogelwch data beri heriau am sawl rheswm. Mae risgiau technegol a'r agweddau cyfreithiol sy'n ymwneud â diogelu gwybodaeth sensitif. Mae pwysau sylweddol ar y cyngor i beidio a thorri rheoliadau fel GDPR.

Wrth ystyried platfformau fel TikTok, mae'r risgiau'n cynyddu. Mae TikTok wedi bod dan archwiliad rhyngwladol oherwydd pryderon ynghylch sut mae'n trin data personol, gallai hynny arwain at dor-ddata neu achosion o rannu gwybodaeth sensitif heb ganiatâd.

6. Cwynion a chanmoliaethau

Nid oes cwynion na chanmoliaethau ffurfiol wedi'n cyrraedd yn ystod y flwyddyn sy'n ymwneud yn benodol â gwasanaethau Cymraeg neu ddwyieithog. Wrth gwrs, mae nifer o ganmoliaethau wedi ein cyrraedd mewn perthynas â bodlonrwydd unigolion a theuluoedd gyda'r gwasanaethau maen nhw'n eu derbyn, ac mae nifer o'r gwasanaethau hyn yn Gymraeg ac felly credwn fod cwrdd ag anghenion iaith unigolion yn naturiol yn cyfrannu at ansawdd y gwasanaeth.

Mae darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn rhan annatod o sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn gallu defnyddio eu hiaith ddewisol.

Eitem 8

Cyfarfod	Pwyllgor Iaith
Dyddiad	29 Mehefin 2026
Teitl	Adroddiad Blynyddol y Gymraeg
Awduron	Nia Haf Lewis a Llywela Haf Owain Ymgynghorwyr Iaith Llio Mai Dafydd, Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg
Pwrpas yr Adroddiad	Cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol drafft i'r aelodau er mwyn iddynt argymhell i'r Aelod Cabinet gymeradwyo cyhoeddi'r adroddiad

1. CEFNDIR

1.1 Yn unol â gofynion y Safonau Iaith, a osodwyd ar y Cyngor dan Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae gofyn i'r Cyngor “*lunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol erbyn 30 Mehefin yn dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi sy'n delio â'r modd y bu [ichi] gydymffurfio â'r safonau gweithredu yr [oeddech] o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.*”

1.2 Mae'r Safonau yn gosod rhai gofynion penodol ar gyfer adrodd blynyddol (158, 164 ac 170), gan nodi bod rhaid i ni gynnwys gwybodaeth am y canlynol:

- nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfiaeth â'r safonau
- nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn o dan sylw (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 151);
- nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd gennych yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 152);
- os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs gennych yn ystod y flwyddyn, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y cwrs a fynychodd y fersiwn Gymraeg (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 152);
- nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn –
 - i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol
 - ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd,
 - iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol, neu
 - iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol, (ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 154);

1.3 Y tu hwnt i'r wybodaeth uchod, mae rhyddid i'r Cyngor gynnwys unrhyw wybodaeth y teimlwn sydd yn ychwanegu at ddealltwriaeth y cyhoedd a Chomisiynydd y Gymraeg o waith y Cyngor yng nghyd-destun y safonau a hyrwyddo defnydd o wasanaethau Cymraeg, ac unrhyw wybodaeth am gamau penodol a gymerir i sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r Safonau.

1.4 Gan fod gan y Pwyllgor Iaith gyfrifoldeb am gadw trosolwg ar weithrediad y Safonau Iaith, mae'r adroddiad a atodir, ar gyfer y flwyddyn hyd at ddiwedd Mawrth 2026, yn cael ei gyflwyno er gwybodaeth i aelodau'r pwyllgor, a gofynnir iddynt roi eu hargymhelliad iddo gael ei gymeradwyo i'w gyhoeddi gan yr Aelod Cabinet.

1.5 Bydd angen i'r adroddiad terfynol gael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor erbyn 30 Mehefin 2026.

2. CRYNODEB O'R ADRODDIAD

2.1 Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth allweddol am drefniadau recriwtio a staffio, sydd yn sicrhau bod gweithlu'r Cyngor yn parhau i allu cynnig gwasanaethau Cymraeg yn ddiofyn a lle bynnag y mae ei angen ar draws y Cyngor. Mae'r data allweddol yn cynnwys:

- 99.3% o staff y Cyngor yn medru ar ryw fath o sgiliau yn y Gymraeg
- 91.6% yn cyrraedd dynodiadau iaith eu swyddi
- 111 wedi mynychu hyfforddiant iaith
- 1,092 aelod o staff wedi cwblhau'r e-fodiwl ymwybyddiaeth iaith

2.2 Mae'r adroddiad yn nodi ymholiadau neu gwynion cydymffurfio sydd wedi cyrraedd Tîm y Gymraeg yn ystod y flwyddyn o ran y polisi iaith y Cyngor, Safonau'r Gymraeg ac enwau lleoedd.

2.3 Eleni mae enghreifftiau arfer dda, i adlewyrchu enghreifftiau o waith Tîm y Gymraeg, cydweithio a phrosiectau holl adrannau'r Cyngor, i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg a chyfrannu at Strategaeth Iaith y Cyngor. Maent yn enghreifftiau blaengar unigryw, sydd yn pwysleisio bod Gwynedd ar flaen y gad efo cynnig gwasanaethau Cymraeg neu ddwyieithog i'r cyhoedd. Mae uchafbwyntiau rhain yn cynnwys:

- Dros 100 o ffrydiau gwaith ar draws adrannau'r Cyngor sydd wedi rhoi sylw i hybu'r Gymraeg
- 328K o wylwyr ar draws fideos TikTok Prosiect 15
- Cefnogaeth i waith Menter Iaith Gwynedd yn ein cymunedau
- Prosiect Enwau Lleoedd
- Ap Niwro Cymru
- Polisi Gosod Tai Cyffredin

2.4 Mae hefyd yn amlygu rhai o'r heriau fydd yn cael sylw gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn codi statws y Gymraeg i'r trigolion ac er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn â Safonau'r Gymraeg.

3. ARGYMHELLION

3.1 Gofynnir i'r aelodau:

- Dderbyn cynnwys yr Adroddiad Blyneddol
- Cynnig unrhyw sylwadau ar y materion sydd yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad
- Argymhell i'r Aelod Cabinet gyhoeddi'r adroddiad erbyn y terfyn amser, 30 Mehefin 2026.

Adroddiad Blynyddol y Gymraeg 2025-6



Tîm Y Gymraeg a Chraffu

Gwasanaethau Corfforaethol



Cynnwys

Rhif tudalen	Eitem
3	1. Rhagair
4	2. Crynodeb
5 6 7 8	3. Cefndir a. Dyletswyddau'r Safonau b. Atebolwydd c. Adrodd yn unol â gofynion safon 17
9 10 11 12-14 15 16-18 19-23 24-25	4. Cydymffurfiaeth â'r Safonau a. Trefniadau cyffredinol b. Cwynion ac ymholiadau i. Safonau'r Gymraeg ii. Polisi Iaith iii. Enwau Lleoedd c. Trosolwg cyffredinol sgiliau iaith d. Hyfforddiant e. Heriau wrth symud ymlaen
26	5. Cydweithio a dylanwadau ar eraill
30	6. Arfer Dda: Strategaeth Iaith Gwynedd

Adroddiad Y Gymraeg 2025-26

Cyfnod Adrodd	1 Ebrill 2025 - 31 Mawrth 2026
Pwrpas	Adrodd ar gydymffurfiaeth Cyngor Gwynedd gyda Safonau'r Gymraeg yn ystod 2025/26, yn ogystal â phrosiectau hybu a hyrwyddo sydd yn cyfrannu at y Strategaeth Iaith.
Awdur	Swyddogion Tîm y Gymraeg a Chraffu a Dysgu a Datblygu'r Datblygiad, Cyngor Gwynedd

Rhagair

Braf yw gweld adroddiad cadarnhaol eto eleni, sy'n adrodd ar gynnydd yn nifer staff y Cyngor sy'n meddu ar sgiliau Cymraeg ac hefyd yn nodi cynnydd yn y nifer sydd wedi mynychu hyfforddiant i ddatblygu eu sgiliau iaith. Mae adroddiad eleni yn cynnwys rhan ychwanegol sy'n rhoi sylw haeddiannol i waith hybu a hyrwyddo ar draws y Cyngor, gyda phob adran yn rhannu prosiect arfer dda. Ein gweledigaeth fel Cabinet ac fel Cyngor yw cynyddu cyfleoedd i bob un o drigolion Gwynedd weld a defnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau. Mae'r prosiectau dan sylw yn rhoi blas ar y cyfleoedd arloesol sy'n cael eu cynnig i drigolion Gwynedd ddefnyddio'u Cymraeg yn ddyddiol.


Un cryfder sydd gan y Cyngor ydi cydweithio a braf yw cydnabod llwyddiannau holl adrannau'r Cyngor i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg a'u cyfraniad at y strategaeth iaith yn eu hadroddiadau i'r Pwyllgor Iaith. Hefyd, mae'r cydweithio rhwng Tîm y Gymraeg â Chomisiynydd y Gymraeg, Arfor, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn a Rhwydwaith, i enwi rhai yn unig, yn sylfaen gref er mwyn dysgu gan sefydliadau eraill a rhoi plattform i'r gwaith da sy'n digwydd yng Ngwynedd.

Mae'r flwyddyn nesaf hefyd am fod yn flwyddyn hynod bwysig i'r Gymraeg yng Nghyngor Gwynedd gyda nifer o brosiectau allweddol i'w cwblhau. Dw i'n edrych ymlaen at weld datblygiad Siarter Twf: Y Gymraeg yn y gweithle, Polisi Iaith Addysg a sefydlu Bwrdd Rhaglen Y Gymraeg.

Cynghorydd Lliod Elenid Owen

Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol a'r Gymraeg yn ystod 2025-26

Crynodeb



Cefndir

Mae'n ofynnol i'r Cyngor gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, ar 30 Mawrth 2016 daeth 147 o safonau yn weithredol, gyda 4 o safonau hybu'n dod yn weithredol ar 30 Mawrth 2017.

Mae safon 170 yn nodi bod dyletswydd ar y Cyngor gyhoeddi adroddiad blynyddol o sut wnaeth gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn ystod y flwyddyn a fu. Mae'r union ofynion wedi'u rhestru yn yr adran hon.

Cefndir

A) Dyletswyddau'r Safonau

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod fframwaith cyfreithiol, sydd yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae safonau unigol yn egluro sut mae disgwyl i sefydliadau ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd.

Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r safonau'n golygu na ddylai'r Cyngor drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y dylai'r Cyngor hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg (sef ei gwneud yn haws i bobl ei defnyddio yn eu bywydau o ddydd i ddydd).

Mae'r Safonau laith wedi'u rhannu yn bum maes:

- cyflenwi gwasanaethau
- llunio polisi
- gweithredu
- hybu
- cadw cofnodion

Derbyniodd y Cyngor hysbysiad cydymffurfio gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 30 Medi 2015, a hynny o dan Ran 4 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Roedd yr hysbysiad yn pennu'r safonau penodol y mae'n ofynnol i'r Cyngor gydymffurfio â hwy, ac ar 30 Mawrth 2016 daeth 147 o safonau yn weithredol, gyda 4 o safonau hybu'n dod yn weithredol ar 30 Mawrth 2017.

Gellir gweld y Safonau y mae'r Cyngor yn gorfod cydymffurfio â nhw yn eu cyfanrwydd, ynghyd â chopi o Bolisi laith cyfredol y Cyngor, drwy fynd i dudalen Safonau a Pholisi'r wefan gorfforaethol.

Cefndir

B) Atebolrwydd

Mae cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn flaenoriaeth i Gyngor Gwynedd ac yn gyfrifoldeb ar holl adrannau a staff y Cyngor. Gwneir y gwaith monitro gan Bwyllgor Iaith Cyngor Gwynedd.

Rôl y Pwyllgor Iaith yw

- Rhoi cyfeiriad strategol a chydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg gan roi sylw i waith y Cyngor ac unrhyw waith partneriaeth neu gydweithio
- Adolygu a chraffu ar faterion sy'n ymwneud â gweithredu Polisi Iaith Cyngor Gwynedd
- Derbyn gwybodaeth ar faterion yn ymwneud â'r Gymraeg yn ôl yr angen
- Gweithredu fel corff ymgynghorol ar strategaethau hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y sir gan wneud argymhellion i'r Cabinet yn ôl yr angen
- Yn flynyddol (yn unol â blwyddyn galendr y pwyllgor), mae pob adran yn adrodd ar brosiectau sydd yn bwydo mewn i weithredu ein Strategaeth Iaith a Chynllun y Cyngor gan roi sylw i 5 maes blaenoriaeth sef blynyddoedd cynnar, dysgu, gwaith a gwasanaeth, y gymuned ac ymchwil a thechnoleg

Dyma linc i adroddiad pob adran:

[Adroddiad Adran Addysg](#)

[Adroddiad Adran Amgylchedd](#)

[Adroddiad Adran Cyllid](#)

[Adroddiad Adran Economi a Chymuned](#)

[Adroddiad Adran Gwasanaethau Corfforaethol](#)

[Adroddiad Gwasanaeth Cyfreithiol](#)

[Adroddiad Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ac Adran Plant a Theuluoedd](#)

[Adran Priffyrdd, Peirianeg ac YGC](#)

[Adran Tai ac Eiddo](#)

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Iaith ar 29 Mehefin 2026, er mwyn ei gymeradwyo. Uned y Gymraeg a Chraffu'r Cyngor sydd yn gyfrifol am gynnwys yr adroddiad yn ogystal â sicrhau bod y safonau'n weithredol.

Dylai unrhyw gwestiwn am gynnwys yr adroddiad gael ei gyfeirio at Tîm y Gymraeg dros iaith@gwynedd.llyw.cymru

Cefndir

C) Adrodd yn unol â gofynion safon 170

Mae'n rhaid i'r Cyngor greu adroddiad blynyddol sy'n darparu gwybodaeth am gydymffurfiaeth gyda Safonau'r Gymraeg. Mae'r union ofynion wedi'u rhestru yn safon 170:

(1) Rhaid ichi lunio adroddiad ("adroddiad blynyddol"), yn y Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r modd y bu ichi gydymffurfio â'r safonau gweithredu yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno.

(2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys y wybodaeth a ganlyn (pan fo'n berthnasol, i'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau y cyfeirir atynt) –

(a) nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn o dan sylw (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 151);

(b) nifer yr aelodau staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigwyd gennych yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 152);

(c) os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs gennych yn ystod y flwyddyn, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y cwrs a fynychodd y fersiwn Gymraeg (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 152);

(ch) nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn –

i. bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol

ii. bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd,

iii. bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol, neu

iv. nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol, (ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 154);

(d) nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfiaeth â'r safonau gweithredu yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.

Cydymffurfiaeth â'r Safonau

Mae Cyngor Gwynedd wedi ymrwymo i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a'r brif nod o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Yn yr adran hon, ceir data a gwybodaeth am y trefniadau sydd ar waith, cwynion ac ymholiadau, data sgiliau iaith staff a data hyfforddiant.

Cydymffurfiaeth â'r Safonau

A) Trefniadau cyffredinol i gydymffurfio â'r safonau

Cyflenwi Gwasanaethau

Wedi cynnal mwy o sesiynau hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith, mae'r staff yn ymwybodol o'u gofynion i ddilyn Safonau'r Gymraeg a hefyd ein Polisi iaith. Mae'r staff yn ymfalchïo mai Cymraeg yw'r iaith fewnol ac yn mynychu cyfarfodydd uniaith Gymraeg ar draws y Cyngor.

Adolygwyd y polisi caffael dros y flwyddyn a sicrhawyd ei fod yn parhau i roi sylw teilwng i'r Gymraeg. Gyda Galw Gwynedd wedi diweddarau eu systemau galwadau yn ystod y flwyddyn, gwnaethpwyd y penderfyniad i osod y peiriant ateb ffôn yn ddwyieithog, yn hytrach na rhoi'r dewis iaith i'r cwsmer o'r pwynt cyswllt cyntaf. Teimlwn fod y drefn hon yn rhoi statws i'r Gymraeg ymysg rhai di-Gymraeg fydd yn cysylltu hefyd, byddant yn clywed y Gymraeg, hyd yn oed os na fyddant yn parhau â'r ymholiad yn yr iaith.

Yn dilyn adroddiad Comisiynydd y Gymraeg ar 'Grymuso'r Gymraeg drwy lywodraethiant cadarn', mae rhaglen waith wedi'i greu gennym i sicrhau cydymffurfiaeth llawn ar draws safonau fyddai weithiau yn medru llithro.

Llunio Polisi

Bellach, mae mwyafrif timau rheoli Adrannau'r Cyngor wedi derbyn cyflwyniad/ hyfforddiant ar gwblhau asesiadau effaith cydraddoldeb ac iaith, i sicrhau eu bod yn deall y gofynion ac i roi trosolwg o'r fformat ar-lein newydd. Mae'r berthynas dda rhwng Tîm y Gymraeg a gwasanaethau megis cydraddoldeb ac ymgysylltu yn golygu bod swyddogion yn cael eu cyfeirio atom yn rheolaidd er mwyn derbyn adborth a chyngor ar gwestiynau ymgynghori ac asesiadau effaith.

Gweithredu

Rydym wedi bod yn edrych ar ein gweithdrefnau cwynion wnaeth ein harwain at sylweddoli ein bod angen amlygu sut i adrodd unrhyw gwynion am y Gymraeg ar wefan y Cyngor. Gyda gwefan newydd ar waith, bydd y system newydd yn amlygu'n well bod posib cyflwyno cwyn drwy'r system gwynion corfforaethol a hefyd drwy Tîm y Gymraeg, gyda dolen amlwg ar y wefan dudalen ar y wefan.

Cydymffurfiaeth â'r Safonau

Cwynion ac ymholiadau - cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg

Llinell Ymholi – Gweithdrefnau Cwynion

Cafwyd cais am wybodaeth am drefniadau delio gyda chwynion am y Gymraeg. Rhannwyd y wybodaeth gyda'r swyddog perthnasol.

Polisi gosod tai lleol

Cafwyd cais gan Gomisiynydd y Gymraeg i dderbyn mwy o wybodaeth am y polisi gosod tai lleol yn dilyn sylwadau rhai aelodau o'r cyhoedd y dylid gosod gofynion ieithyddol wrth osod tŷ cymdeithasol. Yn dilyn hynny, derbyniwyd llythyr gan y Comisiynydd yn nodi nad yw'n glir y byddai unrhyw ofynion ieithyddol fyddai'n gyfreithiol i'w cynnwys fel rhan o bolisi gosod yn debygol o wneud gwahaniaeth yng Ngwynedd a bod Gwynedd eisoes yn blaenoriaethu pobl sydd â chyswllt lleol. Ategwyd bod y dystiolaeth sy'n bodoli yn dangos bod y gofyn hwn eisoes yn golygu bod canran uchel o denantiaid tai cymdeithasol yn siarad Cymraeg. Ychwanegwyd bod y canran yn debygol o fod yn sylweddol uwch na'r hyn y gellid ei gyflawni'n gyfreithiol drwy osod gofyn ieithyddol fel rhan o'r polisi gosod

Adroddiad thematig: Arolygon gwirio cyfrifon cymdeithasol 2025-2026

Ystyriwyd argymhellion yr arolwg cyfrifon cymdeithasol mewn perthynas â threfniadau goruchwyllo, hunaniaeth gorfforaethol, cysondeb wrth gyhoeddi negeseuon a fideos. Adroddwyd bod y prosesau hunan-reoleiddio wedi'u hadolygu ac archwiliad llawn o'r holl gyfrifon cymdeithasol wedi'i gynnal gyda bwriad i wneud arolygon ar hap yn flynyddol. Ategwyd bod cysondeb gyda chyhoeddi negeseuon a bod cynlluniau ar y gweill i lunio canllawiau mwy manwl i staff ynghylch cynhyrchu fideo ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol.

Adroddiad thematig: Arolygon gwirio Gwefannau Hamdden a Llyfrgelloedd Awdurdodau Lleol 2025-2026

Ystyriwyd argymhellion yr arolwg a chynhaliwyd cyfarfodydd gyda'r swyddogion perthnasol. Atgoffwyd staff o'r gofyn i sicrhau nad oes anghysondeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg a nodwyd bod bwriad i wneud gwiriadau ar hap yn fwy rheolaidd. Darganfuwyd bod diweddariadau'n cael eu gwneud i rai systemau ond nad yw'r system yn cyfieithu bob dim yn gywir bob amser i'r Gymraeg. Eglurwyd bod swyddogion yn cydweithio gyda'r cwmnïau sy'n gyfrifol am y systemau er mwyn ceisio cael datrysiad a sicrhau bod y Gymraeg yn ymddangos bob tro.

Ymholiad nifer y cofrestryddion sy'n gweithredu ym mhob ardal a'r nifer sy'n gallu cynnig gwasanaeth cofrestru trwy gyfrwng y Gymraeg.

Cafwyd cais i ddarparu gwybodaeth am y gwasanaeth cofrestru a gynigir yn Gymraeg gan gynnwys nifer y cofrestryddion a'r nifer sy'n gallu darparu gwasanaeth Cymraeg ac unrhyw heriau. Adroddwyd bod 24 o gofrestryddion a bod bob un yn gallu cynnig gwasanaeth Cymraeg.

Cydymffurfiaeth â'r Safonau

Cwynion ac ymholiadau - cydymffurfiaeth â Pholisi Iaith y Cyngor

Adran	Mater y gŵyn	Esboniad a champau a gymerwyd
Amgylchedd	Lori ailgylchu ag ysgrifen uniaith Saesneg yn dod o amgylch yn casglu'r ailgylchu.	Cafwyd cadarnhad mai cerbyd casglu ailgylchu wedi'i hurio dros dro oedd dan sylw. Pan fydd cerbyd allan o wasanaeth neu'n y modurdy, weithiau mae'n rhaid hurio o'r tu allan i Gymru gan nad oes cerbyd sbâr. Achwynydd i weld yn fodlon gyda'r ymateb.
	Cwestiynu penderfyniad Cyngor Gwynedd i wahaniaethu ymysg pobl sydd ddim yn siarad Cymraeg, wrth drafod cais cynllunio tai newydd yn Nhrefor, yn dilyn sylwadau'r Cyngor Cymuned lleol.	Anfonwyd ymateb yn pwysleisio nad yw safbwynt y Cyngor Cymuned yn cynrychioli safbwynt Cyngor Gwynedd fel Awdurdod, ac nad yw'r Cyngor yn cyfyngu ar feddiannaeth tai ar sail iaith, gan nad yw hynny'n gyfreithlon.
	Cwestiynu meini prawf gofynion iaith tai o ran y Gymraeg, yn dilyn gweld stori yn y wasg, wrth drafod cais cynllunio tai newydd yn Nhrefor. Poeni a fyddai'n gymwys ar gyfer tŷ, os byddai ei sefyllfa'n newid, gan nad yw'n teimlo bod ei Chymraeg yn ddigon cryf.	Anfonwyd ymateb y yn pwysleisio nad yw safbwynt y Cyngor Cymuned yn cynrychioli safbwynt Cyngor Gwynedd fel Awdurdod, ac nad yw'r Cyngor heb gyfyngu ar feddiannaeth tai ar sail iaith, gan nad yw hynny'n gyfreithlon.
	Aelod staff methu â siarad Cymraeg yng Nghanolfan Ailgylchu Pwllheli.	Nodwyd mai staff achlysurol oedd y swyddog dan sylw gan fod prinder staff ar y diwrnod. Mae'r Adran wedi ymrwymo i sicrhau bod y swyddog penodol ynderbyn hyfforddiant Cymraeg sylfaenol er mwyn medru cyfarch y cyhoedd. Mi fyddwn yn gwirio bod yna hyfforddiant datblygu sgiliau i staff achlysurol ac yn atgoffa rheolwyr ar draws adrannau o'r polisi iaith.

Cydymffurfiaeth â'r Safonau

Cwynion ac ymholiadau - cydymffurfiaeth â Pholisi Iaith y Cyngor

Adran	Mater y gŵyn	Esboniad a champau a gymerwyd
Gwasanaethau Corfforaethol	Dim digon eglur sut i wneud cwyn am y Gymraeg ar y wefan.	Rydym yn derbyn cwynion am y Gymraeg drwy broses gwyno corfforaethol y Cyngor ac mae'r broses honno ar y wefan ganolog. Mae dogfen gweithdrefn gwynion wedi'i hatodi o dan dudalen safonau a pholisi'r Gymraeg ar y wefan o dan 'Yr Iaith Gymraeg', ond rydym yn y broses o ychwanegu teilsen newydd ar y dudalen honno i'w gwneud yn fwy eglur sut i wneud cwyn am y Gymraeg.
	Unigolyn wedi cwestiynu bod yna brinder gweithwyr cefnogol, sydd yn arwain at effaith ar deuluoedd. Nodi nad oes ystyriaeth i hyn, gan fod angen y Gymraeg i weithio i'r Cyngor. Dealltwriaeth sylfaenol ganddi, ond methu cael cyfweiliad yn Gymraeg.	Rhannwyd gyda'r achwynydd gymalau y polisi iaith sy'n sôn bod rhyddid gan reolwr i ail hysbysebu a chyfweld ymgeiswyr sydd ddim yn cyrraedd y gofynion ieithyddol ond yn barod i ddysgu/datblygu sgiliau Cymraeg.
Cyllid	Cwsmer wedi cwyno i'r gwasanaeth am iddo dderbyn ffurflen uniaith Saesneg ganddynt.	Anfonwyd ymddiheuriad at y cwsmer a nodi y byddai'r rheolwr yn cael gair efo'r aelod staff am y sefyllfa, yn ogystal ag atgoffa'r holl staff am y polisi iaith.

Cydymffurfiaeth â'r Safonau

Cwynion ac ymholiadau - cydymffurfiaeth â Pholisi Iaith y Cyngor

Adran	Mater y gŵyn	Esboniad a champau a gymerwyd
Tai ac Eiddo	Ymholiad ynghylch canran preswylwyr tai cymdeithasol, a ddyrannwyd drwy'r Polisi Gosod Lleol sy'n siarad Cymraeg.	Eglurwyd nad yw'r Cyngor yn casglu data ar allu ieithyddol ymgeiswyr am dai cymdeithasol gan nad yw sgiliau iaith yn berthnasol i bwrpas sefydlu'r angen am eiddo cymdeithasol, ac felly byddai ei gasglu yn groes i erthygl 5.1c Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (UK GDPR). Fodd bynnag, nodwyd bod data gan Adra a Grŵp Cynefin (o arolygon a wnaed ar ôl i denantiaid symud i mewn) yn dangos bod ar gyfartaledd 91% o breswylwyr 10 stad newydd diweddar y cymdeithasau tai yn gallu'r Gymraeg yn "dda" neu uwch. Mae hynny, ar gyfartaledd, 26% yn uwch na chyfartaledd y Sir (64.4%). Awgryma hyn felly bod y gosodiadau cymdeithasol a wneir trwy'r Polisi yn mynd fel rheol i unigolion a theuluoedd sy'n gallu'r Gymraeg.
Economi	Llythyr uniaith Saesneg gan harbwr.	Cadarnhawyd gan yr Adran bod gohebiaeth gychwynnol ddwyieithog yn cael ei hanfon fel arfer ond y bu methiant yn yr achos hwn. Mae gwaith pellach yn cael ei wneud i ddiweddarau trefniadau'r Gwasanaeth er mwyn osgoi camgymeriadau yn y dyfodol. Llythyr Cymraeg wedi'i anfon at yr achwynydd.
	Arwydd uniaith Saesneg ar lan y môr yn Nhrefor.	Cadarnhawyd gan y Gwasanaeth morwrol nad nhw wnaeth osod yr arwydd ar y giât a'u bod wedi tynnu'r arwydd a gosod un dwyieithog yn ei le.

Cydymffurfiaeth â'r Safonau

Cwynion ac ymholiadau - enwau lleoedd

1

**Stad Coed Adda, Bangor
(Awst 2025)**

Roedd y cynghorydd lleol yn anfodlon efo'r enw ac eisiau cynnwys enw 'Eddie Duggan' yn lle 'Adda'. Hysbyswyd y cynghorydd mai enw wedi'i ddewis gan blant yr ysgol leol yw 'Coed Adda' ac mai dyna fydd yr enw. Ni chlywyd dim ar y mater wedyn.

2

**Llys yr Eifl, Trefor
(Medi 2025)**

Codwyd arwydd newydd dan y Cynllun Peilot Arwyddion yn Nhrefor. Cwynodd aelod o'r cyhoedd bod enw arall tebyg yn y pentref - hyn yn deillio o gyfnod codi'r stad ei hun a dadl am yr enw ar y pryd. Newidiwyd yr arwydd. Cadarnhaodd yr achwynydd ei bod yn hapus efo hynny.

3

**Coed Pen Braichmelyn, Bethesda
(Hydref 2025)**

Roedd aelod o'r cyhoedd yn anfodlon efo enw coedwig ar fap OS. Eisiau cyngor ar sut mae mynd ati i'w newid. Anfonwyd e-bost yn nodi'r hen enw gwreiddiol a'r ffaith nad oedd y goedwig yno ers talwm felly mae'n naturiol y byddai anghytuno ynglŷn â'r enw. Diolchodd y sawl a gwynodd a chlywyd dim wedyn.

Cydymffurfiaeth â'r Safonau

Trosolwg Cyffredinol Sgiliau Iaith

Mae pob swydd a gaiff ei hysbysebu gan y Cyngor yn nodi gofynion iaith Gymraeg fel **sgil hanfodol**. Yn y cyfnod hwn, cafodd **1126 swydd eu hysbysebu**.

ADRODD YN UNOL Â GOFYNIION SAFON 170- (a) nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg

Rydym yn parhau i ddefnyddio ein system Sgiliau Iaith Staffi gasglu ein data, sy'n rhoi gwell dadansoddiad i ni o'r sgiliau sydd gan ein gweithwyr. Mae'r wybodaeth a gesglir gan y system yn ateb dau brif gwestiwn:

	Cwestiwn	Ateb
1	A yw'r aelod staff yn cyrraedd gofynion ei swydd?	Ydi / Nac ydi
2	Beth yw lefel iaith yr aelod staff ar gyfer Gwrando a Siarad, Darllen a Deall ac Ysgrifennu?	Dim Sgiliau, Mynediad, Sylfaen, Canolradd, Uwch, Hyfedredd

Cesglir y wybodaeth ar gyfer **cwestiwn 1** mewn dwy ffordd:

- **gan Reolwyr Llinell:** yn ystod cyfarfodydd gyda rheolwyr ar draws y Cyngor, gofynnwn iddynt nodi, yn eu barn nhw, a yw eu staff yn cyrraedd gofynion iaith eu swyddi ai peidio.
- **trwy hunanasesiadau staff:** mae staff yn cwblhau holiadursydd, ar sail eu hymatebion i'r cwestiynau, yn cyfrifo eu lefel ar gyfer Gwrando a Siarad, Darllen a Deall, ac Ysgrifennu. Mae'r lefelau hynny'n cael eu cymharu gyda Dynodiadau Iaith y swydd, a chyfrifir ar sail hynny a yw'r aelod o staff yn cyrraedd gofynion eu swydd ai peidio.

Cesglir y wybodaeth ar gyfer **cwestiwn 2** trwy hunanasesiadau staff.

Mae'r gwaith o gasglu'r asesiadau yn waith parhaus, ac felly rydym yn **adrodd ar nifer y staff sydd wedi'u hasesu'n unig**. Bydd y nifer hwn felly'n cynyddu a newid wrth i ni barhau gyda'r gwaith.

Wrth inni gasglu mwy a mwy o asesiadau, mae gallu'r system i roi gwybodaeth o werth inni'n cynyddu, a gallwn adnabod patrymau trwy ddadansoddi'r ymatebion i'r hunanasesiad iaith. Er enghraifft, pe gwelir bod nifer o staff un gwasanaeth yn gofyn am gyrsiau gloywi iaith, gellir ymateb yn rhagweithiol i hynny.

Mae'r wybodaeth i gyd yn cael ei chasglu'n awtomatig ar y system Sgiliau Iaith Staff, ac yn ein galluogi i gynhyrchu adroddiadau byw ar unrhyw adeg.

NODER:

- Mae **pob swydd** yn y Cyngor wedi'i gwirio i sicrhau bod y dynodiad iaith yn gywir ar gyfer y swydd ac yn parhau i gael eu hadolygu'n gyson.
- Mae pob swydd newydd yn gorfod dilyn trefn benodol ar gyfer gosod y dynodiad iaith cywir.
- Mae pob swydd yn cynnwys gofynion iaith hanfodol, h.y. mae angen rhyw elfen o sgiliau iaith ar gyfer pob swydd yn y Cyngor.
- Mae'r gwaith o gasglu gwybodaeth am unigolion (aelodau staff) yn waith parhaus, ac ni fydd y ffigyrau a nodir byth yn adlewyrchu union nifer y staff sy'n cael eu cyflogi gan y Cyngor. Anelir, fodd bynnag, i gael y darlun cywiraf posib o sgiliau y gweithlu ar unrhyw gyfnod. Mae trosiant staff, newidiadau mewn swyddi, ailstrwythuro, ac unigolion sydd yn dal mwy nag un swydd o fewn y Cyngor i gyd yn ffactorau sy'n effeithio ar gywirdeb y data.
- Nid ydym yn adrodd ar staff sy'n aelodau o'r adrannau canlynol (er yn gyflogedig gan y Cyngor) - Byw'n Iach, Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, Uchelgais Gogledd Cymru a Gogledd Cymru Actif.

Cydymffurfiaeth â'r Safonau

Trosolwg Cyffredinol Sgiliau Iaith

Adroddiad Sgiliau:

Mae'rwybodaethisod yn gywir amser llunio'r adroddiad ac wedi ei thynnu o'n system Sgiliau Iaith Staff.

Trosolwg o'r sefyllfa:

Nifer yr aelodau staff (sydd ar gyflogres y Cyngor)*	4100	
Cyfanswm yr asesiadau a gasglwyd (Asesiadau Rheolwyr Llinell a Hunanasesiadau)	3568	87%
Nifer yr Hunanasesiadau a gasglwyd yn unig (Cwestiwn 2)*	3293	80.30%

*nid yw'n cynnwys staff Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, Byw'n Iach, Uchelgais Gogledd Cymru, Gogledd Cymru Actif na staff ysgolion Gwynedd

Staff a'r Dynodiadau Iaith:

	2024/25		2025/26	
Staff sy'n cyrraedd Dynodiadau Iaith eu swydd	3340	99%	3269	91.6%
Staff nad ydynt yn cyrraedd Dynodiadau Iaith eu swydd	353	1%	299	9.4%

Trosolwg o lefelau iaith y staff*:

	2024/25		2025/26	
Staff sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg (o unrhyw fath)	3351	99.00%	3271	99.3%
Staff heb unrhyw sgiliau yn y Gymraeg	29	100.00%	22	7%

*yn seiliedig ar ddata'r hunanasesiadau yn unig (ddim yn cynnwys asesiadau rheolwyr). Tud. 41

Cydymffurfiaeth â'r Safonau


Trosolwg Cyffredinol Sgiliau Iaith

Lefelau iaith y staff fesul adran:

Mae'r darlun isod yn dangos sgiliau iaith y gweithlu'n ôl yr hyn sydd wedi'i asesu ar hyn o bryd. Gwelir bod mwyafrif y gweithlu'n meddu ar sgiliau Uwch neu Hyfedredd.

*Er hwylustod, tal fyrrwyd enwau'r adrannau yn y graff isod.

Gellir gweld eu henwau'n llawn yn y tabl isod.



	Addysg (heb Ysgolion)	Amgylchedd	Cyllid	Gwasanaethau Corfforaethol	Economi a Chymuned	Oedolion, Iechyd a Llesiant	Plant a Chefnogi Teuluoedd	Prifffyrdd, Peirianeg a YGC	Tai ac Eiddo	Tim Arweinyddiaeth	CYFANSWM
Hyfedredd	238	112	96	170	103	393	280	120	98	69	1679
Uwch	124	81	47	69	60	228	99	123	61	26	918
Canolradd	57	95	5	7	9	135	17	16	9	1	351
Sylfaen	37	23	0	2	8	53	14	8	5	1	151
Mynediad	45	13	0	0	0	97	8	5	3	1	172
Dim sgiliau	2	4	0	0	0	15	1	0	0	0	22
CYFANSWM	503	328	148	248	180	921	419	272	176	98	

Cydymffurfiaeth â'r Safonau

Hyfforddiant

Yn yr adran hon, ceir trosolwg o ddata yn ymwneud â hyfforddiant yng Nghyngor Gwynedd. Yn unol â'n Polisi Iaith Gymraeg, mae Cyngor Gwynedd yn dilyn yr egwyddorion canlynol:

- Bydd pob hyfforddiant a gynigir gan y Cyngor yn cael ei ddarparu yn Gymraeg.
- Cymerir pob cam i helpu staff i gymryd rhan yn yr hyfforddiant Cymraeg.
- Ni fydd hyfforddiant Saesneg yn cael ei gynnig ar gyfer pynciau craidd oni bai bod gwir angen.

Dim ond pan fydd angen hyfforddiant mewn meysydd arbenigol, a phrynu gwasanaethau hyfforddwyr arbenigol i mewn, y bydd hyfforddiant uniaith Saesneg yn cael ei gynnig. Hyd yn oed bryd hynny, gwneir pob ymdrech wrth gomisiynu gwasanaethau i gael deunyddiau dwyieithog a chymerir pob cyfle i geisio dylanwadu ar ddarparwyr cenedlaethol i wella'r ddarpariaeth hyfforddiant cyfrwng Cymraeg i'r sector cyhoeddus yn gyffredinol.

Nodir y wybodaeth isod ar gyfer pob un o brif adrannau'r Cyngor (heblaw Byw'n Iach, Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, Uchelgais Gogledd Cymru, Gogledd Cymru Actif, Consortiwm, Uned Lyfryddol Gogledd Cymru, Cynghorwyr)

Mae hyfforddiant sy'n berthnasol i bob aelod o staff, ar draws pob adran, yn cael ei adnabod fel hyfforddiant ar lefel 'Sefydliad' (neu Hyfforddiant Corfforaethol). Yr hyfforddiant hwn sy'n cael ei weinyddu a'i ddarparu gan y Gwasanaeth Dysgu a Datblygu. Mae hyfforddiant sy'n berthnasol i swydd, gwasanaeth neu adran benodol yn cael ei adnabod fel hyfforddiant ar lefel 'Swydd' ac yn cael ei weinyddu a'i ariannu gan weinyddwyr o fewn y gwasanaethau a'r adrannau hynny.

Nifer y digwyddiadau unigol rhwng 01.04.25 a 31.03.26 = 835

Nifer y teitlau (lefel Swydd/Sefydliad) rhwng 01.04.25 a 31.03.26 = 69 (ddim yn cynnwys teitlau cynghorwyr)

Cydymffurfiaeth â'r Safonau

Hyfforddiant

Nifer y digwyddiadau										
POB ADRAN (<i>heblaw Byw'n Iach, Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, Uchelgais Gogledd Cymru, Gogledd Cymru Actif, Consortiwm, Uned Lyfryddol Gogledd Cymru, Cynghorwyr</i>)										
Blwyddyn Ariannol Ebrill 1 – Mawrth 31	21/22		22/23		23/24		24/25		25/26	
	Lefel Swydd	Lefel Sefydliad / Corfforaethol	Lefel Swydd	Lefel Sefydliad / Corfforaethol	Lefel Swydd	Lefel Sefydliad / Corfforaethol	Lefel Swydd	Lefel Sefydliad / Corfforaethol	Lefel Swydd	Lefel Sefydliad / Corfforaethol
Cymraeg	293	305	175	272	154	251	165	279	167	321
Saesneg	396	71	253	50	254	47	233	21	182	19
Dwyieithog	91	23	169	19	114	7	116	7	139	6
Cymraeg gyda chyfieithydd	-	-	-	-	-	-	-	3	0	1

Nifer y mynychwyr										
POB ADRAN (<i>heblaw Byw'n Iach, Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, Uchelgais Gogledd Cymru, Gogledd Cymru Actif, Consortiwm, Uned Lyfryddol Gogledd Cymru, Cynghorwyr</i>)										
Blwyddyn Ariannol Ebrill 1 – Mawrth 31	21/22		22/23		23/24		24/25		25/26	
	Lefel Swydd	Lefel Sefydliad / Corfforaethol	Lefel Swydd	Lefel Sefydliad / Corfforaethol	Lefel Swydd	Lefel Sefydliad / Corfforaethol	Lefel Swydd	Lefel Sefydliad / Corfforaethol	Lefel Swydd	Lefel Sefydliad / Corfforaethol
Cymraeg	1189	903	705	926	614	1001	940	1084	1081	1330
Saesneg	939	291	730	257	808	281	826	110	816	134
Dwyieithog	237	97	568	19	319	19	497	70	837	66
Cymraeg gyda chyfieithydd	-	-	-	-	-	-	-	29	0	9

Nifer y sesiynau Ymwybyddiaeth laith a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn – **3**
(1 i Staff, 1 i Reolwyr, 1 i Aelodau Di-Gymraeg)

Nifer y staff sydd wedi cwblhau yr e-fodiwl Ymwybyddiaeth laith rhwng **01.04.25 a 31.03.26 – 1,092**

Cyfanswm nifer y staff sydd wedi cwblhau'r e-fodiwl Ymwybyddiaeth laith ar 31.03.26 – Prif adrannau'r Cyngor: **40.4% - 2,659** wedi'i gwblhau allan o 6,581 o aelodau staff

Byddwn yn ymdrechu i godi'r canran sy'n cwblhau'r e-fodiwl yn ystod y flwyddyn nesaf.

Cydymffurfiaeth â'r Safonau

Hyfforddiant

86 unigolyn wedi mynychu'r Gweithdy Croeso yn y cyfnod 01.04.2025 - 31.03.2026

7 digwyddiad wedi'i gynnal

7 trwy gyfrwng y Gymraeg (7 wyneb yn wyneb)

Hyfforddiant a ddarparwyd gan y Cyngor ar gyfer y Gwasanaeth Byw'n Iach:

Nifer y digwyddiadau unigol rhwng 01.04.25 a 31.03.26 = **27**

Nifer y teitlau rhwng 01.04.25 a 31.03.26 = **9**

DIGWYDDIADAU HYFFORDDI	NIFER	MYNYCHWYR UNIGRYW
Cymraeg	23	34
Saesneg	3	16
Dwyieithog	0	0
Cymraeg gyda Chyfieithydd	1	2

Hyfforddiant Iaith

Safon 130: Adrodd ar y cyfleoedd i ddysgu Cymraeg

Dyma drosolwg o'r ddarpariaeth a gynigiwyd i staff i ddysgu neu ddatblygu eu sgiliau Cymraeg yn ystod 2025-2026:

- Cyrsiau cymunedol dros flwyddyn academiaidd (gwersi wythnosol ar-lein neu wyneb yn wyneb) – Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin
- Cyrsiau Haf - DCGO
- Cyrsiau dwys (wythnos) – Nant Gwrtheyrn / Cymraeg Gwaith
- Cyrsiau hunanastudio ar-lein e.e. Hunanastudio lefel Mynediad a Sylfaen, cwrs Camau Gofal Cymdeithasol Cymru, Gwella Cymraeg Gwaith a chyrsiau Blasu Cymraeg Gwaith
- Cyrsiau Cymraeg Gwaith (ar-lein neu wyneb i wyneb)
- Say Something in Welsh
- Cwrs Magu Hyder – Cymraeg Gwaith
- Y Dystysgrif Sgiliau Iaith
- Cyrsiau a gomisiynwyd yn arbennig ar lefelau amrywiol (e.e. Gloywi Iaith)
- Gwersi i staff maes gofal gyda thiwtor iaith mewnol - Cymraeg Gwaith
- Cynllun mewnol Cyfeillion Cymraeg
- Cyfathrebu Clir (mewnol)

Cydymffurfiaeth â'r Safonau

Hyfforddiant: Rhai o uchafbwyntiau'r flwyddyn

Tiwtor Iaith i'r Gweithlu Gofal (Cymraeg Gwaith)

Prif uchafbwynt y flwyddyn o ran hyfforddiant iaith fu'r cyfle i gael tiwtor iaith yn benodol ar gyfer staff maes gofal y Cyngor. Trwy Cymraeg Gwaith a Gofal Cymdeithasol Cymru, cyflogwyd tiwtor fis Medi 2025 i weithio â staff cartrefi gofal a gofal cartref ar draws y sir hyd at ddiwedd mis Mawrth 2026.

Yn hanesyddol, mae canfod gwersi Cymraeg sy'n addas ar gyfer patrwm gwaith yr aelodau o staff sy'n gweithio yn y maes gofal wedi bod yn anodd ac yn heriol. Mae'r datblygiad yma yn sicr yn un i'w ganmol a gellir gweld effaith gadarnhaol y dull yma o ddysgu yn barod.

Mae'r hyblygrwydd a'r gallu i fynd â'r gwersi i'r lleoliadau gwaith yn gwneud byd o wahaniaeth ac yn caniatáu i fwy o staff fedru manteisio ar y cyfle i ddatblygu eu Cymraeg.

Oherwydd llwyddiant y cynllun a'r ffaith bod nifer o aelodau staff ar y rhestr aros, bydd y cynllun yn parhau o Ebrill 2026 – Mawrth 2027.

Cyfathrebu Clir

Peilotiwyd hyfforddiant Cyfathrebu Clir fis Mai 2025. Mae'r hyfforddiant hwn yn canolbwyntio ar annog staff i ystyried eu cynulleidfa a'r hyn maen nhw'n ceisio ei gyfathrebu cyn wedyn ystyried y math o Gymraeg y dylid ei defnyddio. Edrychir ar egwyddorion ysgrifennu mewn Cymraeg Clir gan annog staff i ysgrifennu mewn modd sy'n glir, yn gryno ac yn ddealladwy.

Yn cynnwys y sesiwn peilot, cynhaliwyd 3 sesiwn rhwng 01.04.25 a 31.03.26 gyda chyfanswm o 16 aelod staff yn mynychu.

Cynllun Cyfeillion Cymraeg

Erbyn diwedd Mawrth 2026 roedd 4 unigolyn yn derbyn cefnogaeth gan 4 'Cyfaill'. Roedd 3 phâr arall yn cyfarfod yn ystod y flwyddyn ond wedi dod â'r trefniant i ben erbyn diwedd Mawrth 2026. Byddwn yn parhau gyda'r cynllun presennol gan geisio hysbysebu'r cyfle'n ehangach.



Dyma sylw gan un aelod o staff sy'n rhan o'r cynllun:

"Dw i dal mynd am coffi bob wythnos gyda fy muddy Cymraeg – amser i cael sgwrs yn y Cymraeg am pob dim mewn lle heb poeni fod yn gywir – dim ond amser i ymarfer a codi hyder.

Cydymffurfiaeth â'r Safonau

Hyfforddiant: Hyfforddiant Iaith yn ystod 2025-26

	Cwrs	Nifer Unigolion
Mewnol	Cynllun Cyfeillion Cymraeg	7
	Cyfathrebu Clir	16
Allanol	Gwersi gyda thiwtor Maes Gofal (Cymraeg Gwaith)	40
	Cyrsiau cymunedol Dysgu Cymraeg	27
	Cyrsiau dwys	3
	Cyrsiau Hunan-astudio ar-lein (Cymraeg Gwaith)	9
	Comisiynau amrywiol	9
	Cyfanswm	111



Cydymffurfiaeth â'r Safonau

Heriau wrth symud ymlaen

Asesiadau Effaith

Mae fersiwn ar-lein o'r templed asesiad effaith bellach mewn lle, a chwestiynau am effaith ar y Gymraeg yn rhan o hwnnw. Yn ystod y flwyddyn, mae swyddogion cydraddoldeb a'r Gymraeg wedi dechrau mynychu timau rheoli adrannol er mwyn eu hatgoffa o'r drefn o greu asesiad effaith. Fel rhan o'r sesiwn honno, croesawyd cwestiynau am y drefn ar-lein newydd a hefyd am elfennau o greu'r asesiadau effaith. Wrth symud ymlaen, bydd swyddogion cydraddoldeb a'r Gymraeg yn mynychu cyfarfodydd holl dimau rheoli Adrannau'r Cyngor ac yn cofnodi'r cwestiynau cyffredin sydd yn cael eu holi er mwyn creu canllaw ysgrifenedig i'w rannu ymysg staff y Cyngor. Mae yna fwriad hefyd i greu fideo i gyflwyno'r adnodd ar-lein fydd staff yn medru cael mynediad ato yn eu hamser eu hunain, fel canllaw.

Fideos / Cyfryngau Cymdeithasol

Gyda chyfryngau cymdeithasol a thechnoleg yn brysur ddatblygu, mae angen mwy o ganllawiau pendant o ran sut i greu a chyhoeddi fideos dwyieithog. Gyda chefnogaeth Comisiynydd y Gymraeg a thîm cyfathrebu Cyngor Gwynedd, y gobaith yw rhoi arweiniad o ran y defnydd o is-deitlau a throsleisio fideos, er mwyn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Gwefan newydd

Bydd Cyngor Gwynedd yn cyhoeddi 'gwefan newydd' dros y misoedd nesaf. Byddwn yn sicrhau bod tudalen 'Y Gymraeg yng Ngwynedd' yn cael ei diweddarau efo gwybodaeth am gydymffurfiaeth y Cyngor â safonau'r Gymraeg, gyda'r adroddiad blynyddol yn cael ei rannu arni. Mi fydd diweddariadau hybu a hyrwyddo'r Gymraeg yng Ngwynedd yn cael eu cynnwys hefyd, efo cyfeiriad at Fenter Iaith Gwynedd, cefnogaeth i fusnesau a phrosiectau hybu. Gyda diweddariadau i'r wefan, mi fydd yn gyfle i sicrhau o'r dechrau na fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar draws ei holl dudalennau ac adrannau. Wrth symud ymlaen, byddwn yn cynnal arolygon ar hap ar dudalennau'r wefan er mwyn sicrhau bod adrannau'n cydymffurfio.

Cydymffurfiaeth â'r Safonau

Heriau wrth symud ymlaen

Datganiadau Iaith

Mae yna waith i'w wneud i sicrhau cydymffurfiaeth lawn ar draws holl staff y Cyngor, i ddefnyddio datganiad e-bost cywir yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu'n Saesneg ac na fydd yn arwain at oedi. Gyda staff achlysurol a throsiant staff, nid yw'r neges yn cyrraedd pawb, ond mae sylw yn cael ei roi i'r datganiad mewn cyfarfodydd rheolwyr adrannol. Mi fyddwn yn edrych ar ffyrdd newydd o amlygu'r datganiadau hefyd, fel rhannu posterï gyda datganiadau e-bost, ffurflenni a chyfarfodydd ar draws adrannau'r Cyngor a choridorau'r swyddfeydd.

Cynyddu nifer sy'n cwblhau e-fodiwl hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith

Mae pob aelod staff yn cael cynnig hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith, boed hynny'n hyfforddiant wyneb yn wyneb neu hyfforddiant a roddir drwy e-fodiwl. O ganlyniad i drosiant staff mae'r canran sydd wedi cwblhau'r e-fodiwl wedi lleihau eleni felly byddwn yn cynnal ymgyrch i hyrwyddo'r e-fodiwl yn ystod y flwyddyn nesaf.

Bwrdd Rhaglen

Blaenoriaeth y flwyddyn nesaf fydd sefydlu Bwrdd Rhaglen y Gymraeg, er mwyn cynnig arweiniad strategol ar gynyddu defnydd o'r Gymraeg gan drigolion Gwynedd a monitro gweithrediad Strategaeth Iaith Gwynedd. Mi fydd yr aelodaeth yn cynnwys uwch swyddogion ac aelodau cabinet, er mwyn cael eu gweledigaeth strategol a llywio trafodaethau ar y ffordd ymlaen.

Cydweithio a dylanwadau ar eraill

Dros y flwyddyn ddiwethaf bu Cyngor Gwynedd yn cydweithio gyda nifer o bartneriaid er mwyn hybu defnydd o'r Gymraeg.

Cydweithio a dylanwadau ar eraill

Llwyddiannau cydweithio

Bu'n bleser cydweithio ar brosiect Chwalu Mythau (am y Gymraeg) gyda swyddogion o fyrddau cyhoeddus rhanbarth gogledd Cymru. Bwriad y prosiect yw creu adnoddau digidol er mwyn taclo'r camsyniadau am ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle a thynnu sylw at y cymorth sydd ar gael i wella sgiliau Cymraeg. Gobeithir y bydd hyn o gymorth i recriwtio gweithwyr dwyieithog ar gyfer y sector cyhoeddus. Cafwyd cyfle hefyd i gydweithio gyda 29 o sefydliadau sydd wedi'u lleoli yng Ngwynedd drwy Fforwm Iaith Gwynedd a weinyddir gan Gyngor Gwynedd gyda ffocws ar gydweithio ar brosiectau i hyrwyddo'r Gymraeg ymysg pobl ifanc a'r byd busnes.

Ceisiwyd hefyd ddylanwadu ar eraill a rhoi mewnbwn i ddatblygiadau amrywiol. Cafwyd cyfarfod buddiol gydag Arolygiaeth Gofal Cymru a Llywodraeth Cymru er mwyn ceisio sicrhau bod cyflenwad digonol o arolygwyr sy'n siarad Cymraeg ar gael i arolygu cartrefi gofal yng Ngwynedd a thu hwnt. Cafwyd cyfle hefyd i gyfrannu at y drafodaeth ynghylch enwau lleoedd drwy fynychu a rhannu dogfennau arfer dda a gwybodaeth berthnasol gyda Fforwm Enwau Lleoedd Llywodraeth Cymru, Cyngor Conwy, Cyngor Mynwy, Menter Iaith Bangor a Chymdeithas Ddinesig Caernarfon. Yn dilyn derbyn ymholiadau gan y cyhoedd rhoddwyd pwysau ar Gyfoeth Naturiol Cymru i newid enw ar goedwig ym Mraichmelyn ym Methesda a chasglu tystiolaeth ar ddefnydd yr enw 'Pistyll Dafn' er mwyn argyhoeddi'r Arolwg Ordnans i ddefnyddio'r enw ar fapiau swyddogol. Yn ogystal cynhaliwyd nifer o weithdai mewn ysgolion er mwyn hybu enwau Cymraeg i blant a phobl ifanc.

Mynychwyd sawl digwyddiad gan Rwydwaith Cymdeithas Llywodraeth Leol a pharhawyd i fynychu a chyfrannu i grŵp ymgynghori ar gynyddu defnydd mewnol o'r Gymraeg Comisiynydd y Gymraeg. O ganlyniad i hynny cafwyd cyfle i roi mewnbwn i Twf: Siarter y Gymraeg yn y Gwaith TUC Cymru a chael cyfle i gydweithio gyda changhennau undebau Unsain, Unite a GMB yn lleol. Ein gobaith yw y byddwn ni fel cyflogwr a changhennau'r undebau yng Ngwynedd yn llofnodi'r siarter yn fuan yn y flwyddyn ariannol nesaf. Mynychwyd gweithdy ffurfio fframwaith sgiliau iaith newydd Llywodraeth Cymru er mwyn rhoi barn ar beth fyddai'n fuddiol er mwyn cynorthwyo cyflogwyr a'r cyhoedd i'w ddeall a'i ddefnyddio.

Mae'r Cyngor bellach yn aelod o Rwydwaith WISERD sy'n dod ac academyddion a chynllunwyr ieithyddol at ei gilydd i drafod ymchwil am y Gymraeg ac ieithoedd lleiafrifol eraill a chanfod bylchau ymchwil. Rydym hefyd yn parhau i gydweithio gyda Phrifysgol Bangor ar ymchwil doethuriaeth sy'n edrych yn benodol ar agwedd pobl at y Gymraeg ac hefyd yn bwriadu sefydlu trefn swyddogol i fesur defnydd o'r Gymraeg gan ein cwsmeriaid yn gyson yn dilyn arolwg pilot llwyddiannus a wnaed ar y cyd.

Cydweithio gyda Menter Iaith Gwynedd

Er bod Menter Iaith Gwynedd bellach yn endid annibynnol o'r Cyngor, mae'r cydweithio a'r cyswllt agos yn parhau. Rhoddwyd grant i'r fenter er mwyn gwireddu rhai elfennau o strategaeth iaith Gwynedd. Heb gyfraniad y Cyngor ni fyddai wedi bod yn bosibl i'r fenter wireddu nifer o'r prosiectau.

Dyma flas o'r prosiectau:

Maes Blaenoriaeth Blynyddoedd Cynnar

Cydweithio gyda Sesiwn Fawr Dolgellau a Gŵyl y Glaw yn Mlaenau Ffestiniog i gynnal digwyddiad 'Hwiangerddi i Rieni a Phlant' er mwyn annog pobl i ganu hwiangerddi traddodiadol i blant a hefyd cynhyrchu restr chwarae i wrando a chyd ganu gartref.

Maes Blaenoriaeth Dysgu

- Cydweithio efo'r canolfannau trochi iaith - sgwrsio efo'r rhieni ynghylch cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i'r ysgol ar ddiwedd y tymor.
- Prosiect 'Arwyr Iaith' yn Ysgol Ffridd y Llyn ac yn Ysgol Abererch sy'n defnyddio pecyn arbennig a grëwyd sy'n canolbwyntio ar ganmol unigolion sydd newydd ddychwelyd o'r canolfannau trochi i'w mam ysgol, a phwysigrwyd bod y plant sy'n barod yn yr ysgol yn siarad Cymraeg gyda'r newydd ddyfodiaid. Ar ddiwedd y prosiect ceir perfformiadau i'r rhieni sy'n llawn negeseuon cadarnhaol am y Gymraeg, ei hanes a phwysigrwyd ei defnyddio.
- Cydweithio gyda swyddogion Siarter Iaith Gwynedd i gynnal taith gan Gareth yr Orangwtan a Hywel Pitts i 5 ysgol uwchradd gydag elfennau o'r sioe yn trafod pa swyddi sydd angen y Gymraeg ynddynt ar ôl gadael ysgol.
- Taith cerddoriaeth ysgolion, gydag Ed Holden yn gwneud gweithdai rapio a Mei Emrys yn gwneud gweithdai sylwebu gydag ymweliadau i Frynrefail, Tywyn, Ardudwy, Friars, Moelwyn a Dyffryn Nantlle, a hefyd ysgolion Pendalar a Hafod Lon.
- Mynychu cyfarfodydd Cyngor Iaith 6 o ysgolion uwchradd amrywiol gan gynnal sesiwn ymwybyddiaeth iaith a thrafod sut gellir eu cefnogi i hyrwyddo'r Gymraeg yn yr ysgol.
- Sesiwn chwarae gemau buarth yn Gymraeg yn Ysgol y Garnedd ym Mangor, gweithgareddau i blant yn Ffair Haf Ysgol y Faenol a'r cyfle i drafod y Gymraeg efo'r rhieni a sesiynau stori i blant Ysgol Hiracl.
- Gorymdeithiau a digwyddiadau Gŵyl Dewi yn Nhywyn, Llanbedrog a Bangor - i gymunedau ac ysgolion- gyda 16 o ysgolion yn cymryd rhan ar draws y tair ardal.

Cydweithio gyda Menter Iaith Gwynedd

Maes blaenoriaeth y Gymuned

- Gweithgareddau a sesiynau sgwrsio cymunedol i ddysgwyr, ledled y sir, sydd yn rhoi cyfle i ddysgwyr ymarfer a magu hyder mewn awyrgylch anffurfiol e.e. 'Paned Moidyr' ym Mangor, Peint a Sgwrs yn Ninas Mawddwy a Phaned a Sgwrs yn Y Bala, a rhai teithiau cerdded mewn amrywiol leoliadau. Cefnogwyd hefyd Theatr y Llusern Hud yn Nhywyn i gynnal penwythnos i ddysgwyr Cymraeg.
- Cefnogi mudiadau cymunedol i gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn lleol gan gynnwys pwyllgor neuadd Rhiwlas, criw yn Ninas Mawddwy ac aelwydydd Yr Urdd i bobl ifanc yn Llanystumdwy ac ym Mhenrhosgarnedd.
- Cynnal digwyddiadau cymunedol 'Taith y Fenter Iaith' ym Methesda, y Bala, Botwnnog a Thywyn am sut i gynyddu defnydd o'r Gymraeg yno.
- Defnyddio cerddoriaeth i ddenu oedolion at y Gymraeg, drwy gynnal nosweithiau misol cerddoriaeth Gymraeg mewn tafarn ym Mangor, a threfnu noson 'Bang Bang Bangor Ucha' ym Mangor Uchaf
- Dathliadau amrywiol a oedd yn canolbwyntio ar ddenu teuluoedd sydd ddim fel arfer yn defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol i ddigwyddiadau cymdeithasol e.e gweithdai creu llusernau yn Y Bala, gig calan yn Llithfaen a disgo cymunedol yn Llanbedrog fel rhan o ddatliadau Gŵyl Dewi yn yr ardal.
- Cydweithio efo grwpiau a mudiadau lleol ym Mangor ar ddigwyddiadau gan gynnwys dathlu Bangor yn 1,500, Gŵyl Dewi, Gŵyl Non a chefnogi criw Gŵyl Haf Bangor.
- Datblygu Prosiect Cefnogi Clybiau Chwaraeon i gynyddu/parhau â defnydd o'r Gymraeg yn dilyn ymgynghori gyda chlybiau chwaraeon. Daeth clybiau megis CPD y Felinheli, CPD Cae Glyn, Clwb Rygbi Bethesda, Clwb Rygbi Caernarfon, CPD Dolgellau a CPD Llanystumdwy i ddigwyddiad arbennig i weld cynnwys y pecyn a mewnbynnu syniadau iddo ym Mhorthmadog ganol mis Awst. Bellach mae pecyn ymarferol hawdd ei ddilyn, 'Cadw'r Gymraeg yn en Clybiau Chwaraeon', wedi'i greu a phob clwb chwaraeon yn y sir wedi derbyn copi o hwn.
- Cefnogwyd trefnwyr digwyddiad 'Balchder Gogledd Cymru', ym Methesda, i ychwanegu ychydig mwy o Gymraeg i'r penwythnos, hynny drwy gydweithio ar gwis tafarn dwyieithog, taith gerdded dod i adnabod Dyffryn Ogwen a sesiwn 'peint a sgwrs'.
- Annog busnesau i gynyddu defnydd o'r Gymraeg ac arddangos poster 'Hapus i Siarad' sy'n arwydd i ddysgwyr (a siaradwyr Cymraeg) bod busnes yn gallu cynnig gwasanaeth yn y Gymraeg. Erbyn hyn mae dros 150 o fusnesau'r sir yn arddangos y poster.

Arfer Dda: Strategaeth Iaith Gwynedd

Mae holl adrannau'r Cyngor yn cyfrannu at Strategaeth Iaith Gwynedd, gyda'r prif nod o gynyddu cyfleoedd i bob un o drigolion Gwynedd weld a defnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau.

Gyda phob adran yn adrodd i'r Pwyllgor Iaith yn flynyddol ar eu gweithgarwch i hybu'r Gymraeg, dyma flas ar y prosiectau hynny.

ARFER DDA AMGYLCHEDD

PECYN ADDYSG TIR A MÔR

Adnodd sydd yn cael eu dosbarthu i bob ysgol cynradd yng Ngwynedd gyda fersiwn digidol ar-lein.

Pecyn addysg sy'n helpu i ehangu geirfa Gymraeg disgyblion drwy gyflwyno terminoleg arbenigol, gan gynnwys enwau rhywogaethau a thermau amgylcheddol.



Hyrwyddo'r Gymraeg tu hwnt i addysg

Datblygwyd y pecyn mewn partneriaeth ag ystod eang o sefydliadau trwy'r tîm ACA Pen Llŷn a'r Sarnau, gan hyrwyddo'r Gymraeg y tu hwnt i'r sector addysg. Mae Cyngor Môn eisoes wedi mabwysiadu'r pecyn, ac mae diddordeb i'w ehangu'n adnodd Cymru gyfan drwy gyllid yn y dyfodol.



Normaleiddio'r Gymraeg

Drwy wreiddio'r Gymraeg ym mhob gweithgaredd, mae'r pecyn yn atgyfnerthu'r defnydd o'r iaith yn yr ystafell ddosbarth ac yn y gymuned ehangach.



Rhannu yn genedlaethol

Pecyn sydd wedi'i greu gyda'r bwriad o'i ddefnyddio ar draws Cymru, gyda photensial cryf i gael ei ddefnyddio'n genedlaethol, ac i gefnogi gwaith addysg forol a chodi ymwybyddiaeth mewn ardaloedd eraill hefyd.




Cyd-weithio er mwyn llwyddo

Drwy gydweithio â Hwb, cyfieithwyr proffesiynol ac athrawon, llwyddwyd i oresgyn yr heriau Cymraeg ac i ddarparu pecyn addysgol hygyrch, cywir a pharhaol ar gyfer ysgolion Cymru.



Pen Llŷn a'r Sarnau



Canllaw Gweithgaredd

15 mun

Paru'r Cynefinoedd

Yr offer sydd ei angen

- Copi o'r dullen waith 'Paru'r Cynefinoedd', un ar gyfer bob dysgyr

I wneud y gweithgaredd

- Cathodwch y dysgyr i gwblhau'r dullen waith.

Atebion - Paru'r Cynefinoedd

Tir fferm		Morio llyryd Cranc y traeth Dytrgi
Arfordirol		Glas y dorlan Dytrgi Britthyll
Rhostir		Tylluan wen Ysgylamog Bras melyn
Coetiroedd		Brân goesgoch Grug Eithin
Dŵr croyw		Moch daear Tylluan frech Sgrech y coed

Pecyn Addysg Tir a Môr - Llyfryn Tir



Pecyn Addysg Tir a Môr - Llyfryn Afon



ARFER DDA **ECONOMI A CHYMUNED**

ADNODD CYFRYNGAU CYMDEITHASOL I FUSNESAU

Mewn ymateb i 'Pa gefnogaeth ynglŷn â'r Gymraeg fyddai'n ddefnyddiol?' yn Arolwg Busnes Gwynedd 2025; cymorth â chyfieithu, hyfforddiant a marchnata oedd yn codi amlaf.

Yn seiliedig ar yr adborth hwnnw, crëwyd adnodd cyfryngau cymdeithasol gan y Tîm Cefnogi Busnes, fel canllaw i fusnesau sydd â phrinder amser neu hyder i ddefnyddio'r iaith.

Adnodd hawdd i'w ddilyn



Datblygwyd adnodd syml sy'n hwylus i'w ddilyn, gyda chyfle i fusnesau gopio a gludo. Syniadau marchnata parod; dyddiadau allweddol; cynnwys Cymraeg i'w sianelu.

Y Gymraeg yn arf marchnata pwerus



Cydnabyddiaeth bod cyfryngau cymdeithasol nid yn unig yn arf marchnata, ond hefyd yn gyfrwng pwerus i gryfhau gwelededd a defnydd bob dydd o'r Gymraeg.

Rhannu ymysg rhanbarth ARFOR



Cafodd yr adnodd ei greu yn wreiddiol yn benodol ar gyfer busnesau yng Ngwynedd, ond, wedi ei rannu bellach yn ehangach gyda busnesau ledled ranbarth ARFOR.

Gweithio gyda chwmni marchnata lleol



Cyfle i weithio gyda chwmni marchnata lleol er mwyn creu'r adnodd, gyda chymorth ganddynt wrth gynnwys termau perthnasol.

Balchder o weithio yn Gymraeg



Wrth holi 'Beth yw'r pethau gorau o redeg eich busnes yng Ngwynedd?' yn yr arolwg, nododd nifer o fusnesau 'y gallu i weithio drwy'r Gymraeg.'



Busnes@
gwynedd.llyw.cymru



Y Gymraeg ar y Cyfryngau Cymdeithasol

» i Fusnesau Gwynedd

Using Welsh on Social Media

» for Gwynedd Businesses

Dyddiadau i'w Nodi **Important Days**

Gwyliau'r Haf Cyfnod prysur i fusnesau sy'n darparu gwasanaeth i ddiaristad yn ogyal a phobl lool yng Ngwynedd. Peak season for tourism-related businesses, attracting tourists and locals. #haf #gwyliau'r haf #summer	amrywio varies GORFFENNAF July
Eisteddfod Gendlaethol Oreu cymrwf os yw'r Steiddfod yn yr ardal, neu hel atgofion o Eisteddfodau blaenorol. Join the excitement when the Eisteddfod is in the area, or share memories from past Eisteddfodau. #eisteddfodgendlaethol	amrywio varies AWST August
Dydd Owain Glyndŵr Ddiwrnod i ddathlu amw ceredlaethol Cymreig a Thywysog brodorol olaf Cymru. A day to commemorate Owain Glyndŵr, the last native Prince of Wales. #dyddowainglyndwr	16 MEDI September
Diwrnod Shwmae Su'mae Cael hwyl wrth amnwg y gymuned i ddechrau pob sgwrs gyda 'su'mae'. Encourage everyone in the community to start every conversation with 'su'mae'. #shwmaesu'mae	15 HYDREF October
Cynigion Dydd Gwener Du Amnwg pobl i slopi'n feol. Encourage people to support local businesses. #dyddgwenerdu #blackfriday #cefnogibusnesbach	amrywio varies TACHWEDD November
Nadolig Mae nifer o fusnesau yn cynnyd salb ar ddiwrnod prysur tra bod eraill yn hyrwyddo cynigion arbennig. After a busy period, a lot of businesses are slowing down while others are promoting special offers. #nadolig	25 RHAGFYR December

Awgrymiadau **Top Tips**

- Gifs**
Ar Instagram, mae dewis eang o gifs Cymraeg y gallwch eu defnyddio wrth greu storï.
Scroll through the Welsh gifs available when posting a story. Start typing the word in the search bar.
- Miwsg**
Defnyddiwch yr ystod eang o gerddoriaeth Cymraeg poblogaidd ar Instagram.
Switch to a creator account for a wider selection of music, including popular Welsh music.
- Dwyieithog**
Mae creu cynnwys yn dwyieithog yn gallu helpu i gwerddi cynulleidfia ehangach tra hefyd yn hyrwyddo iaith Gymraeg.
Creating bilingual posts can help to reach a wider audience while also promoting the Welsh language.
- Hashnodau | Allweddoriau**
Defnyddiwch hashnodau a geiriau Cymraeg sy'n berthnasol i'ch busnes - bydd yn gwella'r cyfle i ddilynwy'r newydd yn eich gweld.
Incorporate Welsh hashtags and keywords that is relevant to your business - this will increase the chance of new followers finding your business on socials.
- Collabs**
Beth am gydweithio gyda busnesau lleol eraill drwy wneud 'collab' gyda nhw? Gall dilynwy'r busnes anall hefyd weid y post.
Partner with local Welsh businesses or influencers to create content. This will help your post get a wider reach.
- Diwylliant**
Byddwch yn falch o'n diwylliant! Defnyddiwch yr enwau Cymraeg ar gyfer lleoliadau yn hytrach na'r fersiwn Saesneg. Beth am arddangos ein ddiwyllieddau lleol, ein hachn i'w ddiwyllieddau - gwnwch y cynnwys yn berthnasol i'r gynulleidfa.
Be proud of your culture! Use the Welsh names for locations, showcase our local events language and landscape - make it relevant for the audience.

Tîm y Gymraeg: Prosiect Enwau Lleoedd

Daeth Prosiect Enwau Lleoedd i ben ddiwedd mis Mawrth 2025, yn dilyn gweithredu ar y prif amcanion isod ers 2021:

- cysoni'r modd y mae'r Cyngor yn gweithredu wrth arddel enwau Cymraeg
- sicrhau mai fersiynau Cymraeg enwau lleoedd sy'n cael y flaenoriaeth gyda phartneriaid allanol
- ceisio cymryd camau rhagweithiol i ddiogelu ac atal mwy o newidiadau i enwau cynhenid

Llwyddiannau'r Prosiect

Ap Enwau Gwynedd

Cydweithio gyda'r Adran Gyllid i greu ap sydd wedi ei osod ar Fewnrwyd y Cyngor i staff wirio sillafiad yr enwau. Ymchwiliwyd, gwiriwyd a dilyswyd sillafiad a tharddiad 216 o enwau lleoedd yng Ngwynedd er mwyn cysoni eu defnydd.

Map Enwau Lleoedd

Sefydlu Map Enwau Lleoedd rhyngweithiol, digidol o enwau lleoedd sy'n fyw ar lafar yn lleol ond erioed wedi'u cynnwys ar fapiau swyddogol/statudol. Mae'r map bellach yn cynnwys dros 750 o enwau, nifer ohonynt wedi'u gosod gan blant ysgol yn sgil ymweliad gan y Swyddog Prosiect, ac ar gael ar wefan y Cyngor.

Ceisiadau Cynllunio

Pob cais cynllunio bellach yn rhoi gwybod, yn awtomatig, i ymgeiswyr bod disgwyliad iddynt ddewis enw Cymraeg ar eu heiddo.


Enwau Strydoedd

Cydweithiwyd â chynghorydd Trefor i osod arwyddion Cymraeg yn unig ar strydoedd yn y pentref – gosodwyd 3 arwydd newydd, uniaith Gymraeg.

Trafod gyda Chymdeithas Ddinesig Caernarfon a'i chynghori ar sut i hyrwyddo rhestr o blaciau hen Enwau Strydoedd Caernarfon sydd newydd eu codi ganddynt.

Sesiynau Ysgolion

Sesiynau ar enwau lleoedd a mapiau wedi'u cynnal mewn 19 ysgol gynradd a 3 ysgol uwchradd ar draws y Sir. Gydag adnodd addysgol lle mae disgyblion yn cael map dychmygol iddynt fedru cynnig enwau newydd yn seiliedig ar hanesion a chwedlau'r ynys, nodweddion daearyddol ac ati. Mae hyn yn gymorth i danio brwdfrydedd ac angerdd y genhedlaeth nesaf i achub enwau lleoedd traddodiadol.



ARFER DDA CYLLID



Cronfa Bensiwn
GWYNEDD
Pension Fund

SYSTEM 'FY MHENSIWN' AR-LEIN CRONFA BENSIWN GWYNEDD

Safle hunanwasanaeth newydd sy'n cael ei defnyddio gan gronfeydd pensiwn ledled Prydain. Mae yna ddefnydd o 'avatar' sy'n cyflwyno datganiad personol i'r aelod, gan egluro gwerth eu buddion pensiwn ar y sgrin drwy ddefnyddio technoleg AI Cymraeg.

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi bod yn flaenllaw yn y gwaith i gynnwys ansawdd iaith uchel, terminoleg gyson, a phrofiad defnyddiwr Cymraeg, oedd yr un mor llyfn, modern ac effeithiol â'r fersiwn Saesneg.



Profiad mwy personol

O'i gymharu â datganiad papur traddodiadol, mae'r fformat fideo yn cynnig profiad llawer mwy personol ac eglur, mewn ffordd fwy deniadol.



Blaenoriaeth i'r Gymraeg

Roedd cyfraniad Cronfa Gwynedd yn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin fel iaith lawn a chyfoes, nid ôl-ystyriaeth.



Goresgyn heriau

Roedd sicrhau bod y system yn darllen dyddiadau yn gywir wrth i'r avatar eu llefaru yn fwy cymhleth na'r disgwyl. O ganlyniad, bu'n rhaid arbrofi am gyfnod gyda fformatau a dulliau gwahanol er mwyn cael dyddiadau i swnio'n naturiol a derbyniol.



Cadw golwg am ddatblygiadau AI

Mae lleferydd AI drwy gyfrwng y Gymraeg yn parhau i esblygu felly disgwyl datblygiadau yn y dyfodol er mwyn gwella cywirdeb ac ansawdd darlenniadau ymhellach.

1m 16e Sleid 5

Eich pensiwn os byddwch yn aros tan 67

Incwm y flwyddyn £6,134.22	Incwm y mis £511.19 <small>cyn treth</small>	Lwmp swm safonol £1,664.38 <small>taliad un tro</small>
--------------------------------------	---	--

Gyda'r lwmp swm mwyaf

Lwmp swm mwyaf £26,883.82 <small>taliad un tro</small>	Incwm y flwyddyn £4,032.60	Incwm y mis £336.05 <small>cyn treth</small>
---	--------------------------------------	---

A dyma sut y byddai'n edrych bob mis, cyn treth.

2m 34e Sleid 3

hwefror 2014 2 3 4 5 6 7 8 9 10 11 12 13 14 15 16 17 18 19 20 21 22 23 24 25 26 27 28	Mawrth 2014 1 2 3 4 5 6 7 8 9 10 11 12 13 14 15 16 17 18 19 20 21 22 23 24 25 26 27 28 29 30	Ebrill 2 1 2 3 4 5 6 7 8 9 10 11 12 13 14 15 16 17 18 19 20 21 22 23 24 25 26 27 28 29 30
---	---	--

Cyflwg Terfynol Cyflwrtaidd Gyta

Mae'r all ran yn seiliedig ar gyfartaledd o'ch cyflog.

Tud. 58

ARFER DDA GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

AP 'NIWRO CYMRU'

Ap dwyieithog i roi gwybodaeth, cyngor a chymorth i unigolion niwrowahanol, teuluoedd a phobl broffesiynol. Mae'r ap yn cynnig yr opsiwn i ddarllen gwybodaeth a datblygu ymwybyddiaeth drwy'r Gymraeg.

Gwybodaeth mewn un lle



Ap sy'n cynnig gwybodaeth glir a dibynadwy, gweithgareddau hwyliog a lleddfrol a manylion digwyddiadau lleol.

Cymorth am ddim



Am ddim ar ddyfeisiadau drwy ei lawrlwytho, gan ei fod yn gynnwys all-lein, mae'n lleihau costau data i ddefnyddwyr.

Mewnbwn pobl ifanc



Fe ddatblygwyd yr Ap drwy drafod gyda phobl ifanc Gwynedd a'u teuluoedd, sydd wedi cyfrannu at syniadau ar gyfer y cynnwys, nodweddion allweddol a dyluniad logo.

Terminoleg Cymraeg



Dim terminoleg llawn yn y Gymraeg eto ar gyfer y maes niwrowahaniaeth, felly wedi defnyddio synnwyr cyffredin, er mwyn bathu termau perthnasol.

Nifer yn lawrlwytho



1,300 wedi lawrlwytho'r ap, yn Chwefror 2026.

NIWRO CYMRU



Tîm y Gymraeg: Fforwm Iaith Gwynedd

29 sefydliad ar draws Gwynedd; partneriaid sydd â chyfrifoldeb i hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd yn ogystal â phartneriaid eraill sy'n awyddus i weld y Gymraeg yn ffynnu yn y sir.

Cadeirydd: Mr Gareth Thomas, Cadeirydd annibynnol

Gweithredoedd yn ystod y flwyddyn:

- Cadernid iaith - cyflwyno camau ymarferol i'w gweithredu ar draws sefydliadau a chymunedau
- Arolwg Cefnogi Busnes Cyngor Gwynedd - edrych ar ganlyniadau cymorth ieithyddol
- Diweddariad rhaglen Arfor
- Addasu'r Cylch Gorchwyl - sefydliadau newydd
- Gweithdai i greu Strategaeth y Fforwm - adlewyrchu'r prif nod gwreiddiol i gynyddu defnydd iaith. Ymdebygu i strategaeth iaith Cyngor Gwynedd sydd â pum maes blaenoriaeth - mabwysiadu y rhai hynny.

Is-grwpiau

Is-grŵp Pobl Ifanc

Cynhaliwyd ymgynghoriad am agwedd pobl ifanc at yr iaith Gymraeg a'u defnydd ohoni. Holiadur wedi'i rannu â phobl ifanc sy'n byw neu'n gweithio yng Ngwynedd rhwng 16 a 18 mlwydd oed gyda 1976 yn ymateb i'r holiadur.

Dau gam ymlaen yn dod i'r amlwg o ganlyniadau'r ymgynghoriad, i'w gweithredu:

- Pobl ifanc i fod yn ymwybodol fod galw am y gymraeg gan gyflogwyr.
- Sicrhau bod cyrsiau Cymraeg i bobl ifanc eu dilyn bydd yn eu harwain at yrfaedd Cymraeg.

Is-grŵp Busnes

Ymateb i'r pryder o ddiffyg cynrychiolaeth o'r sector preifat. Crëwyd grŵp tasg a gorffen i gychwyn cyn penderfynu os oes angen am is-grŵp. Penderfynwyd y byddai creu rhaglen waith bellach yn gam ymlaen i gynnwys llais busnes i'r grŵp ehangach. Bydd cyfarfod penodol â thema busnesau ac economi i roi llais busnes i'r Fforwm.

ARFER DDA **OEDOLION, IECHYD A LLESIAINT**

FIDEOS 'MWY NA GEIRIAU'

Prosiect fideos i bwysleisio pwysigrwydd iaith a hunaniaeth mewn gofal a dewis iaith cleifion. Annog mwy o ofalwyr i ddysgu'r Gymraeg ac i siarad efo pobl yn eu hiaith ddewisol. Gwneud hyn drwy fideos yn dangos gofalwyr yn mynd i dai pobl.



Dylanwadu

Cyfes o fideos wedi'u hanimeiddio i ddangos sut gall iaith ddylanwadu ar brofiadau pobl a'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu. Mae'r fideos yn cynnwys enghreifftiau o fywyd go iawn, gan helpu gofalwyr a staff i ddeall pwysigrwydd deall a defnyddio iaith yn effeithiol ac yn empathetig.



Rhannu'n eang

Er mwyn sicrhau bod y cynnwys hwn ar gael i bawb, fe'u rhannwyd yn eang gyda staff trwy gyfryngau mewnol (e-byst, bwletin, y fewnwyd.) Fe'u cyflwynwyd hefyd yn y cartrefi gofal yng Ngwynedd drwy bosteri a codau QR, a'u rhannu ymhellach ar gyfryngau cymdeithasol (Facebook, X, Instagram, a Tiktok.)



Ymateb cadarnhaol

Mae'r prosiect hwn wedi cael ymateb cadarnhaol ac wedi dangos sut y gall fideos o ran defnyddio'r iaith Gymraeg yn y gweithle wella dealltwriaeth, cynhwysiant a'r gwasanaeth i bobl sy'n derbyn gofal.



Mwy na Geiriau



Mwy na Geiriau. Efallai eich bod wedi clywed amdano ond be ydi o, a be ma ddiwl? Wel, yn fyr, mae'n gosod disgwiliadau arnom fel gwasanaethau gof ied bob dim yn ein gallu i sicrhau bod anghenion iaith yn cael eu parchu rhan o daith unigolyn drwy ofal - o'r asesu i'r darparu.

Na Geiriau- Carol

Mae sicrhau gwasanaeth yn unol ag anghenion iaith plant yn cyfrannu at wella eu llesiant. Mae'n ddyletswydd arnom i'w cefnogi yn y Gymraeg.

Na Geiriau- Efan



I be speaking with your Father in Welsh, to make sure he's comfortable, I v mmarise in English for you as we go. Iawn Mr Williams, be am i ni ddechra

Na Geiriau- Mr Williams



Os yw'r unigolyn yn siarad Cymraeg, mae angen i'r gweithiwr sy'n ymweld allu siarad Cymraeg. Dechreuwch y sgwrs yn y Gymraeg bob amser.

Na Geiriau- Gweithiwr



Nid yw'r gweithiwr yn gwybod yw Mr Williams yn siarad Cymraeg, gan na chafodd hyn drafod gyda'i ferch.

Ni ddylai iaith yr asesiad ddibynnu ar iaith Megan.

Beth ddylai'r gweithiwr fod we wneud felly?

Na Geiriau- Mr Williams

Tud. 61

Tîm y Gymraeg: Ymwybyddiaeth a Chadernid Iaith

Mae Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith yn un parhaus yn y modiwl datblygu staff. Mae'n e-fodiwl mandadol i bob aelod staff. Mae yna hefyd sesiwn ychwanegol byw sy'n ddewisol, un ai trwy sesiynau wedi'u trefnu ar hunanwasanaeth staff neu drwy drefnu ag adrannau'n uniongyrchol. Mae ymdrech arbennig wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn er mwyn cyrraedd mwy o reolwyr a staff er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cyflwyno i hanes y Gymraeg, eu hatgoffa o'u dyletswyddau i ymwneud â safonau'r Gymraeg a chynnig cefnogaeth gyda'r Gymraeg.

Cynnwys y sesiynau

Cynnwys cyffredinol y sesiynau ydi trosolwg o:-

- ymwybyddiaeth iaith
- polisi iaith a safonau'r Gymraeg
- holiadur cydymffurfiaeth, asesiad effaith ac adroddiad pwyllgor iaith
- hyfforddiant a'r dynodiadau iaith
- cyfieithu a phrawf ddarllen
- pethau pwysig i'w cofio

Nifer y sesiynau

Sesiynau wedi'u cynnal dros y flwyddyn:-

- Rheolwyr yr Adran Gyllid - 20 yn bresennol
- Ymwybyddiaeth iaith i reolwyr (ar-lein) - 10 yn bresennol
- Rheolwyr yr Adran Oedolion - 8 yn bresennol
- Sesiwn i'r Academi Gofal - 6 yn bresennol
- Staff wyneb yn wyneb - 4 yn bresennol
- Sesiwn y Gymraeg yn y gymuned i aelodau di-Gymraeg

ARFER DDA GWASANAETHAU CORFFORAETHOL

CYFATHREBU CLIR

Mae ymchwil ac ystadegau yn dangos bod pobl Gwynedd yn gwneud mwy o ddefnydd o ffurflenni a dogfennau cyfrwng Saesneg, gydag awgrym eu bod yn fwy hyderus i'w cwblhau drwy'r Saesneg. Gyda hynny mewn cof, mae yna waith wedi'i wneud dros y flwyddyn i wella'r defnydd o Gymraeg clir sy'n cael ei defnyddio gan y Cyngor at ddiben y cyhoedd, gyda'r gobaith y bydd yn arwain at fwy yn llenwi'r ffurflenni Cymraeg.



Swydd Ddisgrifiadau

Casglwyd arferion da a drwg o fewn gofynion person a'r prif ddyletswyddau ar draws nifer o swydd ddisgrifiadau, a fydd o fudd wrth greu rhai o'r newydd. Mae sylw penodol wedi'i roi i ddwy swydd ddisgrifiad yn y maes gofal-swyddi lle mae trafferthion recriwtio. Gan drafod gyda'r rheolwyr perthnasol, llwyddwyd i greu swydd ddisgrifiadau sy'n fwy clir o ran iaith gan gadw nodweddion pwysig y swydd.



Chwalu 'Mythau'

Gan fod holl swyddi Cyngor Gwynedd yn cael eu hysbysebu gyda'r Gymraeg yn hanfodol, mae cred bod angen i bob gweithiwr feddu ar sgiliau Cymraeg rhugl a pherffaith. Gall hyn atal rhai rhag ymgeisio gan nad ydynt yn teimlo bod eu Cymraeg yn ddigon da, felly mae'n flaenoriaeth gennym i chwalu'r myth hwn. Gyda gofynion iaith swyddi yn amrywio fesul swydd, yn dibynnu ar y rôl benodol, a gyda chefnogaeth o fewn y Cyngor i ddatblygu sgiliau iaith, mae lle i bwysleisio nad oes angen Cymraeg perffaith i weithio yma. Mae Uwch Ymgynghorydd y Gymraeg yn aelod o Is-grŵp y Gymraeg, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn sy'n gweithio ar brosiect chwalu mythau ynglŷn â'r Gymraeg o fewn y byd gwaith. Dros gyfnod y Nadolig, gwnaethom rannu eu posteri "12 diwrnod o herio'r mythau Cymraeg yn y gweithle" oedd yn cyfeirio at y gwahanol gredoau sydd wedi'u nodi a'r gwirionedd. Mae'r prosiect yn parhau gyda fideos o gyflogwyr a gweithwyr yn ymateb i'r mythau ar eu ffordd.



Hyfforddiant

Gan fod gwaith ysgrifenedig ffurfiol yn rhan o rôl nifer o swyddogion y Cyngor, penderfynwyd cynnig sesiwn i gynghori swyddogion ar y math o iaith i'w defnyddio, yn enwedig wrth gyfathrebu efo'r cyhoedd. Mae 3 sesiwn wyneb yn wyneb wedi'u cynnal hyd yma, a chafwyd cyfanswm o 16 person yn mynychu.

ARFER DDA **PRIFFYRDD, PEIRIANNEG AC YGC**

MEINCIAU CLYFAR / TROEDFFYRDD LLECHI

Dau brosiect sydd yn adrodd hanes ardaloedd lleol ar draws Gwynedd, ar ffurf weledol neu glywedol, yn rhoi platfform i ddiwylliant ac iaith leol.



Meinciau Clyfar

11 mainc clyfar wedi'u gosod ar draws Gwynedd, efo pecynnau sain sy'n adrodd hanes yr ardal leol, wedi'u comisiynu gan cwmni SAIN.

Mae'r clipiau sain wedi'u lleisio yn ddwyieithog, gan y bobl adnabyddus isod, sy'n lleol i'r ardaloedd penodol:

Tan y Fynwent, Bangor (Casi Wyn)


Y Maes, Caernarfon (Rhys Iorwerth)

Pwllheli (Guto Dafydd)

Cricieth (Gwyneth Glyn)

Promenâd Tywyn (Manon Steffan Ros)

Y Parc a Llyn Bach / Cob Crwn, Porthmadog (Cedron Siôn)



Troedffyrdd Llechi

Yn dilyn derbyn grant SPF, mae llwybr llechi geiriol, uniaith Gymraeg, wedi eu gosod fel rhan o welliannau i drefi llechi.

Yn nhrefi Porthmadog a Thywyn, ac i ddod yn Mhenygroes, mae'r llwybr o eiriau yn arwain ymwelwyr drwy stori'r dref, gan uno'r gorffennol â'r presennol. Mae'r cerddi a'r dywediadau yn berthnasol i'r ardal leol.

Mae'r dewis o eiriau hefyd yn gyfrifoldeb lleol, gyda Manon Steffan Ros wedi dewis elfennau i ddiffinio Tywyn; y llechi, y môr, y rheilffordd a'r gymuned bywiog sy'n byw yna heddiw. Mae plant Ysgol Eifion Wyn wedi dewis geiriau Porthmadog, gan gynnwys gwaith y bardd lleol Eifion Wyn. Mi fydd geiriau dewisol Penygroes wedi'u dewis gan griw lleol yr Orsaf o dan arweiniad y swyddog treftadaeth yn yr ardal.



Tîm y Gymraeg: Prosiect 15



Trosglwyddo negeseuon cadarnhaol ar-lein am ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o fywyd bob dydd, dangos ei bod hi'n bosib siarad a byw bywydau o ddydd i ddydd yn y Gymraeg, dangos bod yna gyfleoedd amrywiol yn y Gymraeg, a sicrhau bod 'lleisiau' y Gymraeg a'n cymunedau yn cael eu clywed.

Ers i 'Mentera' ennill a derbyn y tendr fis Ebrill 2025 i weithio ar y prosiect maent wedi creu adroddiad ar ddyfodol Prosiect 15, wrth greu a chyhoeddi cynnwys ar y platfformau hefyd.

Adroddiad Argymhellion

Rhan o'r tendr oedd creu adroddiad asesu effeithlonrwydd y prosiect, yn enwedig ar y cyfryngau cymdeithasol, ac argymell opsiynau ar gyfer y dyfodol. Adroddiad sy'n amlygu cynnydd sylweddol a thrawiadol mewn ymgysylltiad ar-lein, yn enwedig ar Instagram a Tiktok ers i Mentera gymryd yr awenau ar 1 Ebrill 2025. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at sawl her a'r angen i gynyddu'r buddsoddiad er mwyn parhau i dyfu, yn argymell buddsoddi mewn cydweithrediadau gyda dylanwadwyr a chyrrff eraill, ac i ddatblygu cynllun llysgenhadon.

Llwyddiannau Cynnwys

Fideos wedi'u creu mewn digwyddiadau'r Haf - Eisteddfod Genedlaethol / Eisteddfod yr Urdd / Gŵyl Fwyd Caernarfon / Y Sioe Frenhinol - cynnwys ar y cŷd gyda dylanwadwyr.

Cyd-weithio â sefydliadau ar draws Gwynedd - Clwb Syrffio Llŷn / UMCB / Clwb Dawns Lowri.



ARFER DDA ADDYSG

CYMORTH IAITH I YRRWYR TACSIS

Gofynnwyd am hyfforddiant i yrwyr tacsis a hebryngwyr sy'n cael eu cyflogi gan Gyngor Gwynedd i gludo disgyblion i ddwy ysgol arbennig. Diben yr hyfforddiant oedd cynyddu hyder y staff o ran cyfathrebu gyda'r disgyblion gan sicrhau bod y daith i'r ysgol ac yn ôl yn gyfnod dymunol, cymdeithasol a'r sgwrs yn llifo'n naturiol drwy gyfrwng y Gymraeg.



Codi Hyder

Sicrhodd y sesiwn bod lefel hyder y staff i sgwrsio drwy gyfrwng y Gymraeg wedi cynyddu a'u bod yn hyderus i sgwrsio gyda'r disgyblion a'u teuluoedd. Roedd ymateb y mynychwyr yn gadarnhaol iawn.



Lefelau iaith

Mae'r cyflwyniad yn cyfeirio at lefelau Cymraeg llafar clir, ac felly yn cyflwyno Cymraeg addas i'r mynychwyr, fyddai o bosib â sgiliau amrywiol o'r iaith. Mae yna ddadansoddiad ar y sleidiau o'r lefelau iaith, ac yna termau sy'n amrywio o fewn y lefelau hynny.



Llwyddiant

Roedd yr hyfforddiant yn cynnig cymorth ymarferol i ddefnyddio'r Gymraeg gyda phlant ysgol, gan ddysgu ymadroddion defnyddiol ar gyfer sefyllfaoedd dyddiol. Cynllun bychan, oedd yn llwyddiant ac yn sylfaen posib i'w addasu ar gyfer ei gyflwyno i staff mewn adrannau eraill.



Cefnogaeth

Cefnogi gyrrwyr tacsis, rhoi awgrymiadau ymarferol, darparu ymadroddion defnyddiol ar wahanol lefelau

Geirfa Lefel 1

Symud a Mynd Moving and going

Cymraeg	English
Eistedd	Sitting
Eistedd yn dawel	Sitting quietly
Sefyll	Standing
Cerdded	Walking
Ewch i mewn	Get in!
Dewch allan	Come out!
Arhoswch yma	Wait here!

LEFEL 3

Gyrrwr: Hello eto, sut oedd ysgol heddiw? Wnaethoch chi lot?

Plentyn: Do, mi oedd o'n ddiwrnod prysur.

Gyrrwr: O, iawn! Be wnaethoch chi yn y gwrsi? [Unrhywbeth](#) newydd neu ddi-ddorol?

Plentyn: Wnaethon ni wneud prosiect am anifeiliaid.

Gyrrwr: O, mae [hwnna'n](#) swnio'n ddi-ddorol! Pa un wnest ti ddewis?

Plentyn: Llew.

Gyrrwr: O, llew — dewis da! Gest ti wneud llun neu ysgrifennu amdano fo?

Plentyn: Do. Mi wnes i dynnu llun llew.

Gyrrwr: Neis un! A be oeddech chi'n 'neud amser chwarae? Hefo pw y fuost ti'n chwarae?

Plentyn: Do, Catrin a Tomos eto.

Gyrrwr: Dwi'n falch eich bod chi'n cael hwyl. Be oedd y peth gorau heddiw 'ta?

Plentyn: Yr amser celf.

Gyrrwr: Ie, mae pawb yn licio celf fel arfer.

Gyrrwr: Oes gen ti unrhyw beth arbennig yn digwydd fory?

Plentyn: Nac oes.

Gyrrwr: Reit, bron adra rwan.

Mwynha dy noson!

ARFER DDA TAI AC EIDDO

POLISI GOSOD TAI CYFFREDIN

Amlinelliad o sut mae tai cymdeithasol yn cael eu dyrannu i unigolion a theuluoedd sydd ar y Gofrestr Dai Cymdeithasol yng Ngwynedd. Efen greiddiol ac allweddol o'r Polisi yw sut mae'n rhoi pwyslais cryf (y cryfaf yng Nghymru) ar gysylltiad lleol, a hynny ar ddwy lefel – lefel Gwynedd a lefel gymunedol.



Y Gymraeg

Ers 2024, mae'r Gymraeg yn nghyd-destun y Polisi Gosod wedi bod yn bwnc llosg yn lleol, gyda chynghorwyr tref a sir yn gofyn am gynnwys amod ieithyddol. Cafwyd cyngor cyfreithiol yn 2025 yn egluro y byddai'n gyfreithiol bosib cynnwys amod ieithyddol, ond o ystyried y pwyslais sydd eisoes yn cael ei roi ar gyswllt lleol a'r data sy'n profi bod canran uchel o siaradwyr Cymraeg yn cael eu cartrefu mewn stadau fforddiadwy, penderfynodd y Cyngor bod y polisi eisoes yn gwarchod y Gymraeg a'i siaradwyr fel y mae. Yn debyg i farn y Comisiynydd, penderfynwyd na fyddai ychwanegu amod yn gwneud llawer o wahaniaeth.



Cydnabyddiaeth

Cydnabyddiaeth gan Lywodraeth Cymru fel arfer dda a gan Comisiynydd y Gymraeg – *“Gwynedd eisoes yn blaenoriaethu pobl sydd â chyswllt lleol, ac mae'r dystiolaeth sy'n bodoli yn dangos bod y gofynion hyn eisoes yn golygu bod canran uchel o denantiaid tai cymdeithasol yn siarad Cymraeg. Canran sy'n debygol o fod yn sylweddol uwch na'r hyn y gellid ei gyflawni'n gyfreithiol drwy osod gofyniad ieithyddol fel rhan o'r polisi gosod.”*



Data

- 97% yn mynd i bobl leol â chysylltiad â Gwynedd
- 60% yn mynd i bobl o fewn yr un gymuned
- 95% ar gyfartaledd o denantiaid stadau newydd diweddar yn medru'r Gymraeg (wrthi'n ffurfioli'r dull o gasglu'r data yma i sicrhau bod pob stad yn cael ei harolygu a hynny'n gyson rhwng y Cymdeithasau Tai).



POLISI CYNGOR GWYNEDD AR OSOD TAI CYMDEITHASOL MEWN PARTNERIAETH GYDA ADRA, GRŴP CYNEFIN A TAI GOGLEDD CYMRU



PARTNERIAETH CFFRESTR TAI CYFFREDIN GWYNEDD



CYFARFOD:	PWYLLGOR IAITH
DYDDIAD:	29 Mehefin 2026
TEITL:	Canlyniadau arolwg peilot mesur defnydd o'r Gymraeg mewn mannau cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau ar ran Cyngor Gwynedd
AWDUR:	Llywela Haf Owain Uwch Ymgynghorydd y Gymraeg a Chraffu
PWRPAS YR ADRODDIAD	Cyflwyno canlyniadau yr arolwg

1. Cefndir

- 1.1 Mae'r astudiaeth hon yn cyflwyno dull arloesol o fesur ac arsylwi defnydd y Gymraeg mewn mannau cyhoeddus dan do wrth i drigolion Gwynedd ddefnyddio gwasanaethau a ddarperir gan Gyngor Gwynedd a Byw'n Iach. Gwnaed yr arolwg gan Gyngor Gwynedd gyda chymorth gan gynllunwyr ieithyddol o brifysgol Bangor, Dr Rhian Hodges a Dr Cynog Prys.
- 1.2 Addaswyd methodoleg arolygon stryd a ddefnyddir yng Ngwlad y Basg er mwyn casglu data mewn amrywiaeth o leoliadau gwasanaeth, gan gynnwys derbynfeydd Siop Gwynedd, llyfrgelloedd, canolfannau hamdden a chanolfan alwadau, mewn tri lleoliad gwahanol yn y sir. Nod y gwaith oedd sefydlu gwaelodlin gadarn, annibynnol a gwrthrychol ar gyfer monitro defnydd iaith dros amser, gan ymateb i'r diffyg presennol o ddata meintiol dibynadwy yn y maes hwn.

2. Crynodeb o'r adroddiad

- 2.1 Dengys y canlyniadau fod y Gymraeg yn parhau'n iaith gymunedol fyw yng Ngwynedd, gyda 71.8% o'r rhyngweithiadau a arsylwyd yn cael eu cynnal yn Gymraeg. Fodd bynnag, mae patrwm clir yn ymddangos o leihad yn y defnydd o'r Gymraeg gyda chynnydd mewn oedran, gyda'r defnydd uchaf ymhlith plant a'r isaf ymhlith y grŵp hŷn, 65 oed +. Gwelwyd hefyd fod defnydd o'r Gymraeg yn fwy cyffredin mewn lleoliadau anffurfiol, megis llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden, o'i gymharu â gwasanaethau mwy ffurfiol fel canolfannau galwadau.
- 2.2 Mae'r astudiaeth hon yn cyfrannu'n uniongyrchol at weithredu Strategaeth Iaith Gwynedd 2023–2033, gan gefnogi'r blaenoriaethau sy'n ymwneud â gwaith, gwasanaethau, technoleg ac ymchwil.

3. Argymhelliad

- 3.1 Gofynnir i'r aelodau dderbyn a nodi cynnwys yr adroddiad.

CYFARFOD:	PWYLLGOR IAITH
DYDDIAD:	29 Mehefin 2026
TEITL:	Canlyniadau arolwg peilot mesur defnydd o'r Gymraeg mewn mannau cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau ar ran Cyngor Gwynedd
AWDUR:	Llywela Haf Owain Uwch Ymgynghorydd y Gymraeg a Chraffu
PWRPAS YR ADRODDIAD	Cyflwyno canlyniadau yr arolwg

1. Cyflwyniad a Chefndir

- 1.1. Nod strategaeth Cymraeg 2050, Llywodraeth Cymru (2017a) yw cyrraedd targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a chynyddu defnydd o'r Gymraeg. Mae gan Gyngor Gwynedd hefyd fel pob awdurdod lleol arall strategaeth iaith sy'n cynorthwyo i wireddu'r targed. Er mwyn monitro a mesur eu llwyddiant mae'n bwysig mesur defnydd o'r Gymraeg ar lawr gwlad yn gyson drwy gasglu tystiolaeth.
- 1.2. Ar hyn o bryd prin yw'r data meintiol cyhoeddus am y Gymraeg oni bai am ffigyrau cyfrifiad Swyddfa Ystadegau Gwladol a gesglir bob 10 mlynedd. Cesglir hefyd wybodaeth am garfan o'r boblogaeth drwy Arolwg blynyddol o'r boblogaeth ond mae'r sampl yn fach ar lefel sirol ac nid oes rheidrwydd i bobl ei gwblhau. Rhaid cofio mai data hunan adrodd a geir o'r ffynonellau yma felly nid ydynt yn annibynnol. Gellir felly dadlau bod gwagle o ran casglu data annibynnol cyson am ddefnydd o'r Gymraeg felly penderfynwyd peilota arolwg yng Nghyngor Gwynedd.
- 1.3. Nod yr astudiaeth hon oedd arloesi gyda'r fethodoleg o fesur ac arsylwi defnydd o'r Gymraeg mewn mannau cyhoeddus dan do er mwyn cyfarch rhywfaint o'r bwlch data yng Ngwynedd. Canolbwyntiwyd ar arsylwi defnydd o'r Gymraeg gan drigolion wrth ddefnyddio gwasanaethau Cyngor Gwynedd a gwasanaethau a gomisiynir i gwmni hyd braich Cyngor Gwynedd, Byw'n lach eu darparu ar ran y Cyngor. Y gobaith oedd cael gwir ddarlun o'r sefyllfa ieithyddol a sefydlu gwaelodlin er mwyn parhau i fesur defnydd iaith yn gyson yn y dyfodol drwy ddefnyddio data annibynnol yn hytrach na data a gesglir drwy holiadur hunan adrodd yn unig.

- 1.4 Yr amcan oedd addasu arolwg stryd a ddefnyddiwyd yng Ngwlad y Basg a'i ddefnyddio i gasglu data dan do mewn mannau cyhoeddus amrywiol. Penderfynwyd casglu data mewn tri lleoliad gwahanol sef derbynfeydd 'Siop Gwynedd', llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden ac mewn tri lleoliad daearyddol gwahanol sef Caernarfon, Pwllheli a Dolgellau. Yn ogystal â hyn cytunwyd i arsylwi defnydd iaith yng nghanolfan Galw Gwynedd, sy'n darparu gwasanaeth rheng flaen i ymdrin gyda galwadau ffôn geir gan drigolion ar draws y Gwynedd. Gwnaed yr arolwg gyda chefnogaeth Prifysgol Bangor.

2. Data am sefyllfa'r Gymraeg yng Ngwynedd

- 2.1 Gwynedd yw cadarnle'r Gymraeg gyda 64.4% o'r boblogaeth yn gallu siarad yn ôl ffigyrau cyfrifiad 2021 (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021). Dyma'r canran uchaf o ran siroedd Cymru. Serch hynny mae ffigyrau siaradwyr Cymraeg yn amrywio o ran oedran ac mewn lleoliadau ac mae heriau o safbwynt cynllunio ieithyddol. Mae'n debyg mai'r her fwyaf yw'r amrywiaeth o ran nifer siaradwyr ar draws y sir gyda rhai ardaloedd fel Caernarfon gyda 81.5% o siaradwyr Cymraeg ac eraill fel Bro Dysynni gyda 40.1%.
- 2.2 Ers 1981 mae'r canran o siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd wedi gostwng o 76.2% i 64.4% felly mae'n amlwg bod shifft ieithyddol ar waith a bod angen ymyraethau i'w wrthdroi (tabl 1).

Tabl 1 – Canran siaradwyr Cymraeg fesul ardal, cyfrifiad 1981- 2021

(Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021)


Ardal	1981	1991	2001	2011	2021
Dalgylch Caernarfon	86.0%	87.9%	86.4%	85.3%	81.5%
Bro Llew / Nantlle	84.0%	80.0%	78.8%	78.7%	76.3%
Bro Peris	82.9%	79.3%	78.9%	77.4%	74.6%
Bro Ffestiniog	86.6%	82.4%	80.0%	77.2%	74.4%
Dalgylch Pwllheli	85.1%	79.9%	78.5%	77.2%	74.3%
Dalgylch Bala / Penllyn	85.3%	80.6%	77.7%	75.8%	73.1%
Bro Ogwen	76.5%	74.1%	72.4%	72.6%	70.4%
Ardal Pen Llŷn	79.2%	72.0%	69.6%	67.6%	69.0%

Ardal Porthmadog / Penrhyndeudraeth	80.0%	74.5%	72.3%	69.0%	66.8%
Dalgylch Dolgellau	74.4%	64.7%	67.1%	62.1%	57.7%
Bro Ardudwy	58.9%	52.5%	50.1%	47.8%	47.3%
Dalgylch Bangor	58.0%	58.9%	51.6%	42.0%	44.1%
Bro Dysynni	52.3%	47.1%	43.4%	38.6%	40.1%
Gwynedd	76.2%	72.1%	69.0%	65.4%	64.4%

- 2.3 Mae cyfartaledd siaradwyr Cymraeg Gwynedd ychydig o dan y trothwy o 67%, sy'n cael ei ystyried gan rai fel y canran angenrheidiol ar gyfer sicrhau bod iaith leiafrifol yn gynaliadwy mewn cymuned. Oni bai bod mas critigol digonol o siaradwyr ni ellir cynyddu defnydd iaith (Huws 2018). Gellir dadlau felly bod nifer o ardaloedd o Wunedd mewn perygl o weld lleihad pellach mewn siaradwyr Cymraeg a bod angen ymchwil ac adnoddau i greu a monitro ymyraethau sy'n canolbwyntio ar gynnal a chynyddu defnydd o'r Gymraeg.
- 2.4 Yn ôl cyfrifiad 2021 (S.Y.G 2021) gwelir y canran uchaf o siaradwyr Cymraeg, 81.5% yn ardal Caernarfon, gogledd y sir a'r canran isaf o siaradwyr Cymraeg, 40.1% i'w weld ym Mro Dysynni yn ne'r sir. Mewn 7 ardal yn y sir ceir dros 70% o siaradwyr Cymraeg. (Gweler ffigur 1)

Ffigwr 1 – Map sy'n dangos canran siaradwyr Cymraeg yn ardaloedd Gwynedd

% o siaradwyr Cymraeg yn ardaloedd Gwynedd



2.5 Dengys cyfrifiad 2021 (S.Y.G, 2021) bod mwy o blant yn siarad Cymraeg a bod gallu i siarad Cymraeg yn gostwng gydag oed (tabl 2). Awgryma hyn bod gallu'r Gymraeg yn eithaf cadarn yn y sir, yn enwedig gan blant, ond nid yw'n dweud dim wrthym am ddefnydd y Gymraeg. Dylid cofio nad yw gallu i siarad yn golygu bod pobl yn defnyddio'r iaith yn rheolaidd. Gwelwn felly bod yma ddeuoliaeth ieithyddol sy'n gyffredin mewn mannau dwyieithog ar draws y byd. Mae defnydd iaith yn cael ei effeithio gan nifer o ffactorau gan gynnwys cymhwysedd ieithyddol, defnydd cymdeithasol a chyd-destun defnydd a hunaniaeth ddiwylliannol.

3. Methodoleg

- 3.1 Nod y fethodoleg oedd mesur defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg, gan archwilio pedwar prif ffactor: rhyw, oedran, lleoliad a daearyddiaeth.
- 3.2 Casglwyd data mewn tri lleoliad daearyddol yng Ngwynedd (Caernarfon, Pwllheli a Dolgellau) ar draws tri math o wasanaeth: derbynfydd Siop Gwynedd, llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden, ynghyd â chanolfan

alwadau Gwynedd. Cofnodwyd data cynradd yn systematig gan gynnwys iaith y rhyngweithiad, oedran, rhyw a defnydd iaith gyda phlant.

- 3.3 Defnyddiwyd pedwar categori oedran safonol (2–15, 16–24, 25–64, 65+), a chafwyd mewnbwn gan swyddogion perthnasol er mwyn sicrhau bod yr amseroedd arsylwi a'r dulliau casglu data yn briodol ac yn gyson. Cynhaliwyd yr arsylwadau dros gyfnod o fisoedd er mwyn sicrhau amrywiaeth o ddefnyddwyr gwasanaeth.
- 3.4 Roedd trefn yr arsylwi yn amrywio yn ôl y lleoliad:
- Cynhaliwyd ymweliadau strwythuredig â chanolfannau hamdden dros ddiwrnodau llawn ar adegau penodol.
 - Trefnwyd ymweliadau hyblyg â llyfrgelloedd i adlewyrchu amrywiaeth y gwasanaethau a'r defnyddwyr.
 - Cofnodwyd data mewn Siop Gwynedd a'r ganolfan alwadau gan staff rheng flaen dros gyfnod penodedig.
- 3.5 Defnyddiwyd dull arsylwi uniongyrchol a chofnodi systematig, gyda'r bwriad o sicrhau data dibynadwy a chymaradwy ar draws gwahanol gyd-destunau gwasanaeth

4. Canlyniadau

Darlun cyffredinol

- 4.1 Arsylwyd cyfanswm o 3,205 o ryngweithiadau. O'r rhain, defnyddiwyd y Gymraeg mewn 2,302 (71.8%) achos, a'r Saesneg mewn 903 (28.2%). Mae hyn yn dangos bod y Gymraeg yn parhau i fod yn brif iaith gwasanaeth mewn llawer o gyd-destunau cyhoeddus.
- 4.2 O ran rhyw, gwelwyd gwahaniaethau bach yn unig: dewisodd 76.2% o fenywod a 75.2% o wrywod ddefnyddio'r Gymraeg. Nid yw hyn yn awgrymu perthynas ystyrion rhwng rhyw a dewis iaith.

Oedran

- 4.3 Ceir patrwm clir o leihad yn y defnydd o'r Gymraeg wrth i oedran gynyddu. Defnyddiwyd y Gymraeg gan:
- 90.3% o'r grŵp 2–15 oed
 - 69.8% o'r grŵp 16–24 oed
 - 68.9% o'r grŵp 25–64 oed
 - 58.3% o'r rhai 65 oed a throsodd

Tabl 1	Iaith a ddefnyddir yn ôl oedran		Cyfanswm
	Cymraeg	Saesneg	

Oedran	2-15 oed	Nifer	977	105	1082	
		%	90.3%	9.7%	100.0%	
	16-24 oed	Nifer	157	68	225	
		%	69.8%	30.2%	100.0%	
	25-64 oed	Nifer	712	321	1033	
		%	68.9%	31.1%	100.0%	
	65 oed+	Nifer	245	175	420	
		%	58.3%	41.7%	100.0%	
	Cyfanswm	Dim modd arsylwi	Nifer	211	234	445
			%	47.4%	52.6%	100.0%
		Nifer	2302	903	3205	
		%	71.8%	28.2%	100.0%	

- 4.4 Mae'r patrwm hwn yn gyson â data'r cyfrifiad, ac yn awgrymu bod newid ieithyddol graddol yn digwydd. O safbwynt cynllunio ieithyddol, mae hyn yn peri pryder ac yn amlygu'r angen am ymyriadau i gynnal defnydd o'r Gymraeg ymhlith oedolion.
- 4.5 Dylid hefyd ystyried effaith mudo. Mewn cyfnod diweddar, mae mewnfudo i Wynedd wedi bod yn sylweddol, yn enwedig ymhlith pobl ifanc, tra bod allfudo yn cynnwys llawer o bobl ifanc a addysgwyd trwy gyfrwng y Gymraeg. Gall y newid demograffig hwn ddylanwadu'n sylweddol ar ddefnydd iaith.

Ardal

- 4.6 Mae defnydd o'r Gymraeg yn amrywio'n sylweddol rhwng ardaloedd:
- Caernarfon: 82.9%
 - Pwllheli: 81.6%
 - Dolgellau: 35.9%
- 4.7 Mae'r patrwm hwn yn adlewyrchu data'r cyfrifiad ac yn cadarnhau bod Caernarfon a Phwllheli yn ganolfannau cryf i'r Gymraeg, tra bod ei defnydd yn llai amlwg yn Nolgellau.

Lleoliadau

- 4.8 Gwelwyd y defnydd mwyaf o'r Gymraeg mewn lleoliadau cymdeithasol ac anffurfiol:
- Canolfannau hamdden: 81.0%
 - Llyfrgelloedd: 65.6%

Mewn lleoliadau mwy ffurfiol, roedd y gwahaniaeth yn llai amlwg:

- Siop Gwynedd: 57.1%
- Canolfan alwadau: 47.4%

Tabl 2					
laith a ddefnyddir yn ôl math o leoliad			Cymraeg	Saesneg	Cyfanswm
Lleoliad	Canolfan Hamdden	Nifer	1550	363	1913
		% Lleoliad	81.0%	19.0%	100.0%
	Llyfrgell	Nifer	441	231	672
		% Lleoliad	65.6%	34.4%	100.0%
	Siop Gwynedd	Nifer	100	75	175
		% Lleoliad	57.1%	42.9%	100.0%
	Galw Gwynedd	Nifer	211	234	445
		% Lleoliad	47.4%	52.6%	100.0%
Cyfanswm	Nifer	2302	903	3205	
	% Lleoliad	71.8%	28.2%	100.0%	

4.9 Mae hyn yn awgrymu bod y Gymraeg yn fwy tebygol o gael ei defnyddio mewn cyd-destunau cymdeithasol, tra bod Saesneg yn fwy cyffredin mewn sefyllfaoedd swyddogol.

Plant a throsglwyddo iaith

Pan oedd plant yn bresennol, defnyddiwyd y Gymraeg mewn 78.4% o'r rhyngweithiadau. Er bod hyn yn galonogol, mae'n is na'r cyfraddau trosglwyddo a nodwyd yn y cyfrifiad (75.2% ar gyfartaledd ar draws cartrefi yng Ngwynedd).

5. Casgliad

5.1 Mae'r canlyniadau'n dangos:

- Bod y Gymraeg yn parhau'n iaith gymunedol gref mewn sawl ardal
- Bod defnydd yn lleihau gyda chynnydd mewn oedran
- Bod cyd-destun (ffurfiol/anffurfiol) yn cael dylanwad sylweddol ar ddewis iaith

5.2 Mae defnydd is o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol yn awgrymu presenoldeb diglosia—lle defnyddir ieithoedd gwahanol ar gyfer cyd-destunau gwahanol.

6. Argymhelliad

6.1 Gofynnir i'r aelodau dderbyn a nodi cynnwys yr adroddiad.